

Ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc trwy brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Anthony Barnes a Kath Wright

Y Sefydliad Datblygu Gyrfa

Mawrth 2023

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Crynodeb Gweithredol	3
3	Y cyd-destun cyfredol	8
4	Profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith: Mewnwelediadau o ymchwil	13
4.1	Rôl cyflogwyr mewn gweithgareddau addysg-busnes	13
4.2	Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.....	15
4.2.1	Adnoddau a gweithgareddau cwricwlaid a chyd-gwricwlaid	15
4.2.2	Gweithio gyda phartneriaid busnes	18
	Cynnwys cyflogwyr yn y cwricwlwm / modelau rôl	18
4.2.3	Chwarae rôl, gemau ac efelychiadau busnes.....	23
	Gemau busnes a chystadleuaeth menter	23
4.2.4	Dysgu yn y gweithle	23
4.3	Amcanion ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.....	28
4.4	Deilliannau profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith	32
5	Casgliadau ac argymhellion	40
5.1	Y seilwaith cymorth i ysgolion a busnesau	40
5.2	Ansawdd a safonau	41
5.3	Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.....	41
5.4	Deilliannau ac effaith.....	41
5.5	Arloesi.....	42
6	Cyfeirnodau	44
	Atodiad A – Enghreifftiau o fframweithiau dysgu sy'n ymwneud ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith	47
	Atodiad B – Bathodynau Digidol a phortffolios ar-lein ar gyfer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith	49

1 Cyflwyniad

Mae 'profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith' yn cyfeirio at yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu sy'n defnyddio byd gwaith fel adnodd, cyd-destun ac amgylchedd i wella datblygiad personol, cymdeithasol, addysgol a gyrfaol plant a phobl ifanc.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Sefydliad Datblygu Gyrfa gynnal ymarfer byr i adolygu llenyddiaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi argymhellion sy'n seiliedig ar arfer da ar gyfer ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc trwy brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o arfer da diweddar a hŷn a brofwyd yn y gorffennol o dros 40 o ffynonellau rhyngwladol, ledled y DU ac yng Nghymru, arolwg ciplun o ddisgyblion profiad gwaith mewn un ysgol a 10 cyfweiliad gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Roedd yr olaf yn cynnwys staff yn Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, mewn ysgolion, awdurdod lleol a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Y gobaith yw y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ysgogi trafodaeth am arfer gorau mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a all gael eu trafod gyda phartïon â buddiant a helpu i oleuo opsiynau polisi yn y dyfodol y gellid eu cyflwyno i weinidogion.

2 Crynodeb Gweithredol

Mae 'profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith' yn cyfeirio at yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu sy'n defnyddio byd gwaith fel adnodd, cyd-destun ac amgylchedd i wella datblygiad personol, cymdeithasol, addysgol a gyrfaol plant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o arfer da diweddar a hŷn a brofwyd yn y gorffennol o dros 40 o ffynonellau rhyngwladol, ledled y DU ac yng Nghymru, arolwg ciplun o ddisgyblion profiad gwaith mewn un ysgol a 10 cyfweliad gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Roedd yr olaf yn cynnwys staff yn Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, mewn ysgolion, awdurdod lleol a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Y cyd-destun cyfredol

Ar lefel genedlaethol, mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn llewyrchus, yn gydnerth, yn iachach gyda chymunedau cydlynus sy'n fwy cyfartal a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Trwy gydweithio, nod y strategaeth arloesi ar gyfer Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach yw creu swyddi gwell, gwasanaethau iechyd a gofal gwell, amgylchedd gwyrddach ac economi fwy llewyrchus (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r polisïau hyn yn adlewyrchu'r diddordeb mwy brwd mewn cryfhau'r cyfraniad y gall profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ei wneud i gyrraedd y nodau hyn. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, awdurdodau lleol a chyflogwyr hefyd yn weithgar o ran hybu mentrau i ddatblygu sgiliau lefel uwch yn y gweithlu ac i gefnogi sectorau sy'n flaenoriaeth o fewn yr economi fel TG, ynni ac iechyd.

Mae'r system addysg yn cael ei diwygio'n sylfaenol yn sgîl cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Un o'i bedwar diben yw magu plant a phobl ifanc i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith. Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith (Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith), thema drawsbynciol yn y cwricwlwm i blant 3-16 oed, yn ganolog i'r uchelgais hwn. Mae ysgolion yn dechrau rhoi Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar waith yn y cwricwlwm gyda chefnogaeth eu partneriaid busnes a chymunedol. Ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd, mae cymwysterau'n newid. Mae Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cymhwyster Prosiect Sgiliau Integredig newydd, unedau/cymwysterau sgiliau bywyd a gwaith a chymwysterau cynalwedigaethol.

Effeithiwyd yn andwyol ar allu ysgolion i ddarparu eu rhaglen arferol o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith gan bandemig Covid ond ceir adferiad bellach yn hyn o beth. Yn ystod y pandemig, daeth ysgolion yn fedrus mewn darparu profiadau rhithwir a cheir diddordeb o hyd mewn sut i ddefnyddio profiadau rhithwir a hybrid i ategu darpariaeth wyneb-yn-wyneb.

Ers 2013, mae Gyrfa Cymru wedi bodoli fel is-gwmni a berchnogir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru gyda chylch gwaith a bennir gan Weinidog yr Economi. Caiff gweledigaeth Gyrfa Cymru ei nodi yn *Dyfodol Disglair 2021*, strategaeth bum mlynedd i drawsnewid y cyfraniad y maent yn ei wneud i iechyd y bobl, cymdeithas a'r economi. Mae cynllun gweithredol 2022-23 yn amlygu rôl bwysig Gyrfa Cymru o ran cynnig gwasanaethau cyffredinol, detholus a phwrpasol i ysgolion sy'n hwyluso cysylltiadau addysg-busnes.

Profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith: Mewnwelediadau o ymchwil

Roedd y dadansoddiad o ymchwil a llenyddiaeth lwyd yn canolbwyntio ar y rhan y mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn ei chwarae mewn partneriaethau addysg-busnes ehangach (gweler Tabl Dau), yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm (gweler Tabl Tri), yr amcanion ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (gweler Tabl Pedwar) a deilliannau profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae gan y dadansoddiad hwn gymwysiadau ymarferol wrth ddatblygu offer newydd ar gyfer cynllunio a chofnodi'r cwricwlwm i ysgolion eu defnyddio. Mae hefyd yn amlygu manteision cadarnhaol profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae'r sylfaen dystiolaeth i ategu'r honiad hwn yn cynyddu gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau wedi'u hasesu fel rhai cymedrol neu dda. Profiad gwaith neu leoliad gwaith yw'r gweithgaredd a astudiwyd yn fwyaf eang ond mae adroddiadau diweddar gan Ymchwil Arad, The Careers & Enterprise Company a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi taflu goleuni ar ddarpariaeth effeithiol ar draws yr ystod lawn o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn cael yr effaith fwyaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo gweithgareddau wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm a'r cyd-gwricwlwm
- Pan fo gweithgareddau'n cael eu cynllunio i ddarparu rhaglen gytbwys, gydynol a chynyddol o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.
- Pan fo disgyblion wedi'u paratoi'n dda ymlaen llaw ac yn cael ôl-drafodaeth wedi hynny.
- Pan fo cyfathrebu da yn cael ei gynnal rhwng ysgolion a busnesau.
- Pan fo'r deilliannau'n cael eu gwerthuso.

Casgliadau ac argymhellion

Mae'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn wedi nodi pum prif faes blaenoriaeth sy'n allweddol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc trwy brofiadau o waith.

1. Y seilwaith cymorth i ysgolion a busnesau

Yn gyffredinol, mae Gyrfu Cymru yn uchel ei barch ymhlith ysgolion am ei broffesiynoldeb a chysondeb ei wasanaethau. Mae mewn sefyllfa dda trwy ei Gynghorwyr Ymgysylltu â Busnesau, Cynghorwyr Gyrfaoedd a Thimau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith i gryfhau'r seilwaith cymorth i ysgolion a busnesau. Mae angen i'w rôl fel darparwr gwasanaethau cyffredinol a detholus ond hefyd fel galluogydd a hwylusydd gwasanaethau pwrpasol dyfu i wynebu'r heriau sydd i ddod. Mae cytundebau partneriaeth gydag ysgolion a phartneriaethau strategol gyda busnesau a darparwyr eraill yn fecanweithiau hynod effeithiol ar gyfer rheoli profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Er mwyn estyn cylch gwaith Gyrfu Cymru bydd yn rhaid wrth gynnydd mewn adnoddau hyd yn oed ar ôl cynnal ymarfer posibl i ailfodelu rhai o'i wasanaethau eraill (yn enwedig ar ôl colli prosiectau byrdymor). Er hynny, bydd angen cymryd camau i liniaru risgiau fel y galw am eu gwasanaethau o blith ysgolion yn mynd yn fwy na'r capasiti, gwasanaethau arloesol yn profi'n anghynaliadwy yn ariannol ac ymdrin â'r straen sy'n gysylltiedig â rheoli newid. Mae'r rhestr o fentrau yng nghynllun gweithredol 2022-23 eisoes yn drawiadol, ond gallai eu rôl hefyd gynnwys:

- cynyddu'r cymorth i ysgolion sydd â phlant o oedran cynradd roi Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar waith yn y Cwricwlwm i Gymru.
- Cydlynu ac ehangu darpariaeth profiad neu leoliad gwaith cyn-16 ac ôl-16. Mae adfer gwasanaeth fetio am ddim yn rhywbeth y byddai ysgolion yn ei groesawu'n arbennig.

Gallai hwn gael ei reoli'n uniongyrchol gan y Tîm Cynghorwyr Ymgysylltu â Busnesau, ond cael ei is-gontractio hefyd i sefydliadau cymeradwy sydd eisoes yn darparu gwasanaeth mewn rhai ardaloedd. Bydd datblygu canllawiau profiad gwaith newydd ar gyfer ysgolion a busnesau yn eu helpu i ddilyn gofynion cyfreithiol ac o ran yswiriant ond bydd hefyd yn gwella ansawdd a safonau.

- Datblygu mwy o adnoddau, deunyddiau a gweithgareddau newydd, mewn partneriaeth gydag ysgolion a busnesau. Byddai ysgolion yn croesawu cyfeiriadur ar-lein o adnoddau, astudiaethau achos a phrosiectau, heriau a chystadlaethau newydd mewn perthynas â'r cwricwlwm a hwnnw'n gyfeiriadur a gaiff ei guradu a'i ddiweddarau.
- Rhedeg rhaglenni peilot newydd a allai, pe baent yn llwyddiannus, gael eu hestyn yn genedlaethol, e.e. pasbort digidol, bathodynau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith digidol, cynllun peilot e-bortffolio, a rhaglenni ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATH).
- Cyhoeddi ail rifyn o'r pecyn cymorth a blwch offer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith gydag adnoddau a deunyddiau i helpu rheolwyr cwricwlwm mewn ysgolion i ddyllunio, gweithredu ac adolygu eu darpariaeth o ran profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

2. Ansawdd a safonau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth a blwch offer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith 3-16 ar gyfer ysgolion ac mae Gyrfa Cymru yn datblygu Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru newydd. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal cynllun Gwobrau Partner Gwerthfawr blynyddol gan gynnwys gwobr i'r cyflogwr profiad gwaith mwyaf cefnogol. Mae'r rhain yn cyfrannu at wella ansawdd a chodi safonau. Bydd cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau i ysgolion a busnesau ar redeg cynlluniau profiad neu leoliad gwaith effeithiol hefyd yn helpu. Mae opsiynau eraill yn cynnwys:

- Cryfhau'r meini prawf sy'n ymwneud â phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y Wobr Ansawdd sy'n cael ei datblygu.
- Datblygu gwobr ansawdd profiad neu leoliad gwaith.
- Cynnig hyfforddiant i staff addysgu a gweinyddol sy'n ymwneud â rhedeg cynlluniau profiad neu leoliad gwaith.
- Datblygu rôl cynghorwyr ymgysylltu â busnesau o ran cefnogi clystyrau a rhwydweithiau lleol o ysgolion i reoli profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a phartneriaethau addysg-busnes yn eu hardaloedd yn fwy effeithiol.
- Gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith mewn ysgolion.
- Datblygu agenda ymchwil. Mae adolygiadau o lenyddiaeth wedi amlygu'r agweddau ar brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith na wnaed digon o ymchwil iddynt. Byddai'n ddefnyddiol datblygu rhaglen ymchwil i oleuo arfer gorau a'r arfer nesaf sy'n dod i'r amlwg.

3. Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Profiad neu leoliad gwaith yw'r gweithgaredd mwyaf adnabyddus, ond mae rhai mathau eraill o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith heb gymaint o dystiolaeth ohonynt yn ysgolion Cymru. Dylid annog ysgolion i ymchwilio i weithgareddau eraill a sut y gallant fod o fudd i'w disgyblion. Gall mentoriaid busnes neu fodlau rôl, er enghraifft, gymell ac ennyn diddordeb disgyblion yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Gall disgyblion ifancach, ond hefyd rhai hŷn, gael budd o arsylwi ar waith a chysgodi swyddi y gellir ei wneud yn rhithwir,

wyneb yn wyneb neu drwy gyfuniad o'r ddau. Gall heriau busnes, gan gynnwys y rhai a fodelwyd ar fformatau teledu poblogaidd, fod yn llwyddiannus iawn hefyd.

4. Deilliannau ac effaith

Mae ffocws cryf ar ystyr ac effaith yn helpu i sicrhau bod y profiadau a gynllunnir yn berthnasol, yn addysgegol gadarn ac yn arwain at ddeilliannau gwerth chweil.

Mae angen i asesu deilliannau cyfranogiad disgyblion mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith fod yn rhan annatod o'r broses ddysgu fel ei fod yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac yn goleuo'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu nesaf.

Mae dull y gallai fod yn werth ei dreialu gyda grŵp o ysgolion yn seiliedig ar ddisgyblion yn meddu ar e-bortffolio Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith. Mae dysgu gan ddefnyddio e-bortffolio yn seiliedig ar egwyddorion casglu, dethol a myfyrio. Mae disgyblion yn casglu tystiolaeth o'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu, yn dethol yr enghreifftiau gorau ac yn myfyrio ynghylch yr hyn a wnaethant a'r hyn y byddant yn ei wneud yn well y tro nesaf. Mae e-bortffolio hefyd yn allbwn y gallant ei rannu gyda staff (e.e. tiwtoriaid) a defnyddio data detholus ynddo i gyflwyno eu hunain wrth wneud ceisiadau. Gallai pasbort digidol gyda dysgwyr ifancach fod yn werth ei dreialu hefyd i hybu ymwybyddiaeth eang.

Mae disgyblion yn mwynhau dathlu eu profiadau a'u cyflawniadau hefyd. Mae deilliannau achrededig fel unedau a chymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu mewn sgiliau bywyd a gwaith a'r elfen sy'n gysylltiedig â byd gwaith ym Magloriaeth Cymru yn ffyrdd pwysig o wella deilliannau. Mae'n werth ystyried y cyfraniad y gallai bathodynau digidol (a drafodir isod) ei wneud i gydnabod a chofnodi profiadau a chyflawniadau disgyblion. Gellid storio bathodynau digidol yn e-bortffolio disgybl.

5. Arloesi

Nid yw arloesi bob amser yn llwyddiannus. Roedd yr ymateb i'r fenter profiad gwaith rhithwir Speakers for Schools, er enghraifft, yn siomedig. Mae llawer yn dibynnu ar amseriad, costau a chapasiti ysgolion, busnesau ac asiantaethau partner i newid eu harfer; ond bydd arloesi mewn perthynas â phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn helpu i ysbrydoli dysgwyr. Mae'r syniadau ar gyfer datblygiadau newydd yn cynnwys:

- Mae ar ysgolion cynradd angen help i roi Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar waith. Byddai'n ddefnyddiol i bob ysgol pe bai grŵp peilot o ysgolion yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a busnesau lleol i ddatblygu a chyhoeddi ystod o adnoddau a deunyddiau addysgu ar gyfer yr ystafell ddosbarth sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae cyfle hefyd i annog cyhoeddwr masnachol i gynhyrchu adnoddau a deunyddiau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith sydd wedi'u hanelu at y cwricwlwm newydd.
- Bydd disgyblion sy'n mynd drwy'r system ysgolion yn awr yn wynebu canlyniadau argyfwng yr hinsawdd a'r amgylchedd. Un o'r ymatebion sydd ar gael iddynt yw cofleidio arferion byw a gweithio'n gynaliadwy, ond mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth, adnoddau a gweithgareddau o ansawdd da i'w helpu. Gall cydweithio rhwng ysgolion, busnesau a Gyrfa Cymru i ddatblygu gemau, efelychiadau, prosiectau a heriau 'sero net' ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc.
- Gan ysbrydoli pobl ifanc i ehangu eu gorwelion gan ddefnyddio technegau gemeiddio, dylai Gyrfa Cymru barhau i ddatblygu CrefftGyrfaedd Gyrfa Cymru ymhellach.
- Mae gan fathodynau digidol y potensial i gryfhau deilliannau ac effaith cyfranogiad disgyblion mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gallai cynllun peilot gydag ysgolion, busnesau, Gyrfa Cymru ac un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu'r defnydd o

fathodynnau digidol gael effaith fawr ar ddatblygiad gyrfaol pobl ifanc 14-18 oed. (Gellid treialu pasbort digidol gyda disgyblion ifancach). Byddai datblygu cyfres o fathodynnau lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith sy'n canolbwyntio ar sectorau'r economi sy'n bwysig ar gyfer ffyniant Cymru yn y dyfodol yn ddeniadol i awdurdodau lleol a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Sylwadau i gloi

Mae gan y datblygiad presennol mewn gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith y potensial i greu system addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o safon fyd-eang. Mae perthnasoedd cryf rhwng ysgolion, busnesau a'r gwasanaeth gyrfaoedd Cymru gyfan ynghyd â'r diwygiadau sylfaenol, galluogol i'r cwricwlwm a chymwysterau'n creu'r amodau delfrydol i arloesedd a gwelliant ffynnu.

3 Y cyd-destun cyfredol

Fe wnaeth yr arfer o ddarparu profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm i blant a phobl ifanc ehangu'n gyflym yn y 1970au a'r 1980au; ond nid yw'r cynnydd wedi bod yn barhaus. Nododd Estyn (2020) ostyngiad ar ôl 2015 a oedd yn gysylltiedig â diwedd cylch gwaith Gyrfa Cymru i ddarparu gwasanaeth profiad gwaith i ysgolion. Mae dirywiad pellach wedi bod yn gysylltiedig â phandemig Covid wrth i ysgolion flaenoriaethu adferiad dysgwyr o ddiffygion eraill yn y cwricwlwm. Bu Covid yn sbardun ar gyfer cyflwyno profiadau dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith trwy ddulliau rhithwir a hybrid ac mae hyn yn parhau ochr yn ochr â gweithgareddau wyneb-yn-wyneb. Mae ysgolion yn dal i nodi diffyg amser, yn enwedig ar gyfer tasgau gweinyddol, cyfyngiadau cyllidebol a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd fel anawsterau parhaus.

Llywodraeth Cymru

Mae angen edrych ar yr ymrwymiad i brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a'r buddsoddiad ynddynt yng nghyd-destun dyheadau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi a chymdeithas gref. Wrth graidd y dyhead hwn mae gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn llewyrchus, yn gydnerth, yn iachach gyda chymunedau mwy cydlynus a chyfartal a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Trwy gydweithio, nod y strategaeth arloesi a lanswyd ym mis Chwefror 2023 yw creu swyddi gwell, gwasanaethau iechyd a gofal gwell, amgylchedd gwyrddach ac economi fwy llewyrchus (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r polisiâu hyn yn esbonio'r diddordeb mwy brwd yn y cyfraniad y gall profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ei wneud i gyrraedd y nodau hyn. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, awdurdodau lleol a chyflogwyr hefyd yn weithgar o ran hybu mentrau i ddatblygu sgiliau lefel uwch yn y gweithlu ac i gefnogi sectorau sy'n flaenoriaeth yn yr economi fel TG, ynni ac iechyd.

Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith (Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith) yn thema drawsbynciol yn y cwricwlwm newydd sydd wedi'i bwriadu i gael ei gwreiddio ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn cyfrannu at ddatblygu gyrfa yn ogystal â bod â rôl o ran hwyluso dealltwriaeth economaidd a diwydiannol a dysgu diledryw ar draws y cwricwlwm cyfan. Maent yn rhan annatod o Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ac ni fyddai'n ddefnyddiol i ysgolion eu trin fel elfen gwbl ar wahân. I'r perwyl hwn, mae Gyrfa Cymru (2022a, 2022b) wedi cyhoeddi pecyn cymorth a blwch offer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn seiliedig ar egwyddorion dylunio'r cwricwlwm newydd. Mae'r pecyn cymorth yn gwneud ansawdd yn ganolog i Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith trwy nodi chwe dimensiwn ansawdd, y mae pob un ohonynt yn ymwneud ag effeithiolrwydd darpariaeth ddysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith (gweler Tabl Un).

Mae gan brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith y potensial i gymell dysgwyr trwy ddefnyddio byd gwaith fel adnodd, cyd-destun ac amgylchedd perthnasol a realistig ar gyfer dysgu o fewn y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn gyfle i estyn ffocws traddodiadol gweithgareddau addysg-busnes ar bobl ifanc 14-16 oed ar draws y cyfnod 3-16 yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio dull mwy ystyriol o ymdrin â materion cwricwlaidd dilyniannu, cynnydd, cydlyniant a chwmpas cynhwysfawr.

Tabl Un: Effeithiolrwydd y ddarpariaeth dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Dimensiwn ansawdd	Perthnasedd i ansawdd profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
Arwain datblygiad Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn yr ysgol	Mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn elwa o fod ag aelod arweiniol o staff sydd â digon o amser ac adnoddau i ddatblygu darpariaeth gan gynnwys cymorth gweinyddol priodol
Gwireddu Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn y cwricwlwm	Dylai profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith gael eu hintegreiddio yn y cwricwlwm yn hytrach na bodoli ar wahân a bod yn elfen atodol. Mae gweithgareddau cyd-gwricwlwm sy'n ategu ac yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn rhan bwysig o ddarpariaeth dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith
Gweithredu dysgu ac addysgu effeithiol mewn Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith	Mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn gwneud defnydd helaeth o ddulliau dysgu gweithredol, cyfranogol a thrwy brofiad sy'n ysgogol iawn ac yn mynd â'r dysgu'n ddyfnach
Cefnogi dysgu proffesiynol mewn Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith	Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn hanfodol i staff ddatblygu'r hyder a'r cymhwysedd i hwyluso dysgu plant a phobl ifanc trwy brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae dulliau'n cynnwys gwahodd arweinwyr busnes i gymryd rhan yn rhaglenni hyfforddiant mewn swydd ysgolion, lleoliadau athrawon a hyfforddiant i gyflwyno gweithgareddau penodol.
Datblygu Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar y cyd	Mae gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol yn gwella'r modd y cyflwynir profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gall rhieni fynd â'u plant i'r gwaith, siarad am y gwaith maen nhw'n ei wneud a'i ddangos a helpu staff ar ymweliadau. Gall cyflogwyr a staff gynllunio gweithgareddau ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc fel sgysiau carwsél, efelychiadau busnes, heriau menter, ffeiriau gyrfaoedd a 'ffug' gyfweiliadau.
Dangos effaith mewn Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith	Gall profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith gael ystod o effeithiau sy'n darparu tystiolaeth o fanteision Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith. Mae mesur effaith a deilliannau'n gymhleth ond mae'r casgliad o astudiaethau a gronwyd sy'n dangos manteision cadarnhaol yn berswadiol.

Gyrfa Cymru

Mae gan Gyrfa Cymru rôl sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n uchel ei pharch o ran cefnogi gweithgareddau rhwng ysgolion a chyflogwyr ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i frocera cysylltiadau o'r fath yn y dyfodol ac annog mwy o ysgolion, cyflogwyr a darparwyr eraill i ymgysylltu ond mae hyn yn codi materion o ran ei gapasiti i wneud hynny.

Yn 2019, canfu ymchwil annibynnol i weithgarwch addysg-busnes yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Gyrfa Cymru, mai ffug gyfweiliadau a lleoliadau profiad gwaith sydd fwyaf o werth i ysgolion. Fodd bynnag, yn sgîl colli cronfa ddata profiad gwaith Gyrfa Cymru, a oedd yn cynnwys cyflogwyr a oedd wedi cael eu 'fetio' ym maes iechyd a diogelwch, nododd ysgolion ddiffyg amser ac arbenigedd i gynnal eu hymarferion eu hunain i 'fetio lleoliadau posibl (Beaufort Research).

Yn ystod tymor yr haf 2022, fe wnaeth Gyrfya Cymru leoli 100 o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 mewn lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra fel rhan o gynllun adfer addysg Covid-19 'Adnewyddu a Diwygio' Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect peilot hwn bellach wedi cael ei estyn ac mae Gyrfya Cymru wedi cael comisiwn i leoli 500 o ddysgwyr mewn lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra yn ystod 2022/23. Mae lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra fel rheol yn golygu bod dysgwr yn treulio 1-3 diwrnod gyda chyflogwr dros gyfnod estynedig o amser. Mae Gyrfya Cymru hefyd wedi cyflwyno costau ar gyfer lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra i gyrrff arweiniol awdurdodau lleol i'w hystyried fel rhan o gynlluniau buddsoddi rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae Gyrfya Cymru hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, fel rhan o Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU, i gyflwyno prosiect profiad gwaith gyda'r nod o leoli hyd at 200 o ddysgwyr blwyddyn 10 mewn profiad gwaith dros gyfnod byr o 1 wythnos.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Mae gan Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol o ran dadansoddi'r heriau a'r cyfleoedd economaidd yn eu hardaloedd ac i nodi'r sgiliau y mae eu hangen yn y gweithlu.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Caerdydd yn rhan o Addewid Caerdydd sydd â phum rhaglen o weithgarwch i gefnogi plant a phobl ifanc yn ysgolion Caerdydd a helpu i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Caerdydd yn cydnabod mai un o'r prif flaenoriaethau yw gwella cydlynad cyffredinol y system gyda phartneriaid fel Gyrfya Cymru, er eu bod yn cydnabod y byddai angen 'buddsoddiad enfawr' ar gyfer hyn. Ar lefel ysgolion, hoffent weld:

- Staff sydd ag amser wedi'i neilltuo i reoli cysylltiadau addysg-busnes yn hytrach na cheisio gwneud lle i hynny ynghanol gormod o gyfrifoldebau eraill.
- Dealltwriaeth well mewn ysgolion am wahanol sectorau'r economi ac anghenion cyflogwyr.
- Mwy o hyblygrwydd yn null ysgolion o ymdrin â phrofiad gwaith, e.e. nid dim ond targedu cyflogwyr mawr neu drefnu lleoliadau dros gyfnod byr mewn ffenestr fach yn nhymor yr haf.
- Mwy o ymdrech i wireddu potensial lleoliadau hybrid neu gyfunol a oedd yn cyfuno dulliau wyneb-yn-wyneb a rhithwir.
- Gwahaniaethu cliriach rhwng amcanion gwahanol fathau o leoliadau profiad gwaith ac egluro hyn wrth gyfranogwyr, e.e. lleoliad cyn-16 nad yw'n gysylltiedig â'u dewis lwybr ac yna lleoliad arall ar ôl 16 arall er mwyn i ddysgwyr fod yn siŵr eu bod yn dilyn y cwrs cywir.
- Mwy o sylw'n cael ei roi i baratoi dysgwyr ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, e.e. nid oedd ffeiriau gyrfaoedd yn gweithio'n dda pan nad oedd dysgwyr wedi'u paratoi'n dda.
- Paru dysgwyr yn well â gweithgareddau, e.e. roedd sgysiau busnes am y sgiliau y mae eu hangen a llwybrau talent yn gweithio'n dda gyda dysgwyr hŷn a oedd yn gryf eu cymhelliant.
- Cydnabyddiaeth well i lwybrau prentisiaeth.
- Ysgolion yn mynd ati'n gynt i ddechrau cyflwyno dysgwyr i'r gwahanol sectorau. Gyda'r ysgogiad cywir, gallai'r cwricwlwm newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 oed hwyluso hyn.

Darpariaeth wyneb-yn-wyneb, rithwir a hybrid

Yn sgîl y pandemig, cyflymwyd y defnydd o dechnoleg ar-lein/ddigidol i ddarparu profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a oedd yn cael eu trefnu wyneb yn wyneb yn flaenorol. Mae ysgolion ag ymrwymiad i brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith wedi mynegi awydd i fynd yn ôl i drefnu profiadau wyneb-yn-wyneb; ond mae cryn botensial i ategu'r math traddodiadol hwn o ddarpariaeth â ffyrdd hybrid/cyfunol a rhithwir o ddarparu. Mae llwyfannau dysgu rhithwir yn dod yn fwy soffistigedig. Maent yn lleihau'r angen i gyfranogwyr deithio (sydd o fudd i'r amgylchedd ac yn mynd â llai o amser) ac maent yn caniatáu amserlennu mwy hyblyg. Mae dulliau ar-lein yn helpu i leddfu'r problemau sy'n gysylltiedig â bod â rhy ychydig o gyflogwyr mewn ardaloedd gwledig a gormod o ysgolion yn mynd ar drywydd lleoliadau mewn ardaloedd trefol ar yr un adeg o'r flwyddyn. Maen nhw hefyd yn galluogi mynediad at ystod ehangach o fusnesau - o unig fasnachwyr a busnesau bach a chanolig i gwmnïau mawr. Bydd heriau parhaus yn cynnwys asesu anghenion dysgwyr yn well a sicrhau mynediad teg at gyfleoedd.

Yn ystod pandemig Covid, sefydlodd Speakers for Schools (S4S) bartneriaeth strategol gyda Gyrfa Cymru a oedd yn canolbwyntio ar leoliadau digidol. Gall busnesau ledled Cymru ymgysylltu â dysgwyr dros y DU gyfan trwy S4S. Maent hefyd yn cynnal ymgyrch 'Profiad Gwaith i Bawb' i hyrwyddo profiad gwaith o ansawdd da i bob person ifanc ni waeth beth fo'u man cychwyn mewn bywyd na'u lleoliad daearyddol. Mae ar yr elusen symudedd cymdeithasol eisiau sicrhau bod pob person ifanc yn cael o leiaf un lleoliad profiad gwaith cyn eu bod yn 16 oed ac o leiaf un lleoliad profiad gwaith rhwng 16 a 18 oed.

Y farchnad lafur a heriau economaidd a chyfleoedd

Mae cyfeiriadau at fyd sy'n gyfnewidiol, yn ansicr, yn gymhleth ac yn amwys (VUCA) yn amlygu'r anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth wneud synnwyr o gyfleoedd yn y farchnad lafur. Mae rhai amcanestyniadau'n rhagweld nad yw dwy ran o dair o'r swyddi y bydd pobl ifanc yn camu i mewn iddynt wedi cael eu hadnabod eto. Mae argyfwng yr hinsawdd a'r amgylchedd, Brexit, Covid, yr argyfwng ynni a'r rhyfel yn Wcráin yn faterion gwleidyddol cartref mawr sy'n arwain at heriau economaidd a heriau o ran y farchnad lafur. Mae masnach fyd-eang (yn enwedig diffyndollaeth gynyddol) a datblygiad technolegol (yn enwedig datblygiadau fel Deallusrwydd Artiffisial) yn trawsnewid cyfleoedd yn y farchnad lafur. Mae'r cynnydd tuag at ffyrdd cynaliadwy o fyw a gweithio, fel a ragwelir gan Nodau Datblygu 2030 y Cenhedloedd Unedig, yn anwastad ac ar ei hôl hi (Robertson, 2021). Mae'r materion hyn yn arbennig o berthnasol wrth gynllunio profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae arolygon yn nodi bod mwy o bryder ynghylch yr hinsawdd neu eco-bryder ymhlith pobl ifanc a all effeithio ar eu gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol (Hickman *et al.*, 2021; Cynghrair Seicoleg yr Hinsawdd, 2022). Mae datblygiadau mewn Deallusrwydd Artiffisial a dysgu peirianyddol yn dileu'r angen am gyflogaeth o fath clerigol a gweinyddol lefel-isel (a oedd unwaith, yn eironig ddigon, yn brif elfennau rhaglenni profiad gwaith) ac maent hyd yn oed yn effeithio ar swyddi sgiliau uwch fel codio.

Goresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Nod strategaeth tlodi plant y Llywodraeth yw mynd i'r afael â'r broblem sy'n golygu bod 31% o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi cymharol yn ôl yr amcangyfrifon (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'n bwysig nad yw dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc dan anfantais o ran mynediad at brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Yn yr un modd, ni all gwaith i wella cyfleoedd i ddisgyblion ag

anghenion addysgol arbennig, sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn cael Addysg heblaw yn yr ysgol, a/neu o grwpiau lleiafrifol fod yn ad-hoc na chael ei adael i ragluniaeth. Bydd asesiad wedi'i gynllunio o'r angen sy'n gysylltiedig â gweithredu cadarnhaol yn gwella tegwch o ran mynediad at brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae gweithgareddau ymgysylltiad uchel fel profiad gwaith yn gysylltiedig â darparu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol dirprwyol (Mann *et al.*, 2018) a chyfleoedd pontio (CIOS Careers Hub) i ddysgwyr ag anawsterau ac anableddau.

4 Profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith: Mewnwelediadau o ymchwil

Roedd y dadansoddiad o ymchwil a llenyddiaeth lwyd yn canolbwyntio ar y rhan y mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn ei chwarae mewn:

- Partneriaethau addysg-busnes ehangach (gweler Tabl Dau).
- Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm (gweler Tabl Tri).
- Yr amcanion ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (gweler Tabl Pedwar); a
- Deilliannau profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Mae gan y dadansoddiad hwn gymwysiadau ymarferol wrth ddatblygu offer cynllunio a chofnodi newydd mewn perthynas â'r cwricwlwm i ysgolion eu defnyddio. Mae hefyd yn amlygu manteision cadarnhaol profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae'r sylfaen dystiolaeth i ategu'r honiad hwn yn cynyddu gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau wedi'u hasesu fel rhai cymedrol neu dda. Profiad gwaith neu leoliad gwaith yw'r gweithgaredd a astudiwyd yn fwyaf eang ond mae adroddiadau diweddar gan Ymchwil Arad, The Careers & Enterprise Company a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi taflu goleuni ar ddarpariaeth effeithiol ar draws yr ystod lawn o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn cael yr effaith fwyaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo gweithgareddau wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm a'r cyd-gwricwlwm
- Pan fo gweithgareddau'n cael eu cynllunio i ddarparu rhaglen gytbwys, gydlynol a chynyddol o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.
- Pan fo disgyblion wedi'u paratoi'n dda ymlaen llaw ac yn cael ôl-drafodaeth wedi hynny.
- Pan fo cyfathrebu da yn cael ei gynnal rhwng ysgolion a busnesau.
- Pan fo'r deilliannau'n cael eu gwerthuso.

4.1 Rôl cyflogwyr mewn gweithgareddau addysg-busnes

Wrth ystyried mynd ati ymhellach i ddatblygu profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc, mae angen gosod hynny yng nghyd-destun yr ystod lawn o weithgareddau addysg-busnes (gweler Tabl Dau am rôl y cyflogwyr mewn gweithgareddau addysg-busnes). Mae deall gweithgareddau addysg-busnes fel system ecolegol yn helpu i dafu goleuni ar y cysylltiadau, y rhyngweithiadau a'r cyfnewidiadau sy'n galluogi arfer gorau mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith i ddatblygu. Roedd yr ysgolion y cyfwelwyd â hwy'n aml yn sôn am werth cynnwys busnesau yn yr ysgol a'r gymuned ehangach; ond mynegwyd ychydig o bryder ynghylch detholusrwydd gan fusnesau o ran yr ysgolion y maent yn eu cefnogi. Mae'n bwysig nodi bod rhai gweithgareddau addysg-busnes yn dwyn manteision pwysig i addysg a busnes nad ydynt yn ymwneud ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn unig, megis nawdd a chymorth ehangach ar gyfer y cwricwlwm.

Tabl Dau: Rôl cyflogwyr mewn gweithgareddau addysg-busnes (ar ôl Percy a Kashefpakdel, 2021)

Lefel system	Rôl cyflogwyr	Engbreiffiau
Cenedlaethol a rhanbarthol	Llunio polisi/deddfwriaeth addysg	Cymryd rhan mewn prosesau llunio polisiâu a chynllunio strategol (naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyrff cyflogwyr):

Lefel system	Rôl cyflogwyr	Engbreiffiau
	<p>Mynegi'r hyn y mae ei angen ar fusnesau o'r system addysg</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu llwybrau hyfforddi a chymwysterau technegol a galwedigaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau • Cyflwyno sylwadau • Ymateb i ymgynghoriadau • Darparu cuddwybodaeth am y farchnad lafur a'r economi <p>Darparu prentisiaethau</p>
Lleol	Cyfrifoldeb cymdeithasol ('trwydded i weithredu'): Cyfrannu at economi a chymuned leol ffyniannus	Darparu cyllid a nawdd ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau Cymryd rhan mewn digwyddiadau 'drysau agored' ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd
Ysgol	Cyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu ysgolion	Gwasanaethu fel llywodraethwyr Cyfrannu arbenigedd busnes Ymrwymo i bartneriaethau gydag ysgolion
Ysgol	Rhoi cymorth i ddatblygu'r cwricwlwm	<p>Darparu gweithgareddau cwricwlwm a chyd-gwricwlwm sy'n gysylltiedig ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith mewn partneriaeth ag ysgolion, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglenni profiad gwaith. • Cysgodi gwaith. • Heriau menter tîm, gemau busnes a phrosiectau. • Clybiau STEM, TG a busnes. • Ymweliadau â gweithleoedd. • Gweithdai chwilio am waith. • Gweithdai cyflogadwyedd a sgiliau 'allweddol'. • Digwyddiadau blas ar waith. • Astudiaethau achos. <p>Darparu gweithgareddau cwricwlaidd nad ydynt yn gysylltiedig ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith mewn partneriaeth ag ysgolion, e.e. gwrando ar ddarllenwyr, tiwtora mewn mathemateg.</p>
Ysgol	Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i arweinwyr ysgolion a staff eraill	<p>Lleoedd agored ar ddigwyddiadau hyfforddi cyflogeion ar gyfer staff ysgolion.</p> <p>Lleoliadau athrawon.</p>
Unigol	Hysbysu a datblygu unigolion	<p>Asesu perfformiad disgyblion ar waith cwrs a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad gwaith. • Mentora. • Coetsio ar gyfer swyddi. • Cymryd rhan mewn nosweithiau gyrfaedd mewn ysgolion, ffeiriau gyrfaedd. • Cynnal diwrnodau agored.

Lefel system	Rôl cyflogwyr	Engbreiffiau
Unigol	Creu cyfleoedd i unigolion	Interniaethau. Swyddi rhan-amser ac yn y gwyliau.

4.2 Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Gellir grwpio profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o dan bedwar pennawd (ar ôl Ball, 1984; Edwards a Barnes, 1997) (gweler Tabl Tri):

- Adnoddau a deunyddiau'r cwricwlwm
- Gweithio gyda phartneriaid busnes
- Chwarae rôl, gemau ac efelychiadau busnes
- Dysgu yn y gweithle.

Gellir defnyddio'r dull categoriedd hwn i:

- Ddangos hierarchaeth o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o brofiadau dysgu anuniongyrchol i ddisgyblion (yn seiliedig ar ddysgu gwybyddol yn bennaf) i brofiadau uniongyrchol (yn seiliedig ar ddysgu trwy brofiad yn bennaf). Mae'n dangos y newid mewn dwyster i ddysgwyr: ar un pen y sbectrwm maent yn cyflawni rolau a thasgau dysgwyr yn yr ysgol, ac ar y pen arall maent yn cyflawni rolau a thasgau gweithwyr yn y gweithle. Mae'r sbectrwm hwn hefyd yn rhoi cipolwg ar y cynnydd mewn ymgysylltiad, h.y. y galw cynyddol ar fusnesau ac ysgolion.
- Pecynnu'r arlwy o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith i ysgolion.
- Creu llawlyfr neu arweiniad ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Gall profiadau dysgu gwerth chweil o dan bob un o'r pedwar pennawd fod o fudd i ddysgwyr o bob oed er mai'r oedran lleiaf i wneud profiad neu leoliad gwaith (rhan o ddysgu yn y gweithle) yw 14.

Tabl Tri: Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

4.2.1 Adnoddau a gweithgareddau cwricwlaidd a chyd-gwricwlaidd

Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Gellir mewnosod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn adnoddau'r cwricwlwm a ddefnyddir i addysgu unedau a chysiau ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Gellir ei darparu mewn amrywiaeth o fformatau (e.e.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r disgyblion yn deall y cymwysiadau go iawn y dulliau, y prosesau a'r cysyniadau y maent yn dysgu amdanynt. • Mae dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith wedi'i integreiddio yn nysgu'r 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb araf gan awduron a chyhoeddwr masnachol i'r angen am y math hwn o wybodaeth sy'n gysylltiedig â byd gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau Hwb a Gyrfa Cymru, e.e. Dinas Gyrfaoedd (cynradd)

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
testun, cyflwyniadau PowerPoint, fideos)	<p>disgyblion ar y cyfan yn hytrach na'i fod yn elfen atodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gellir gwella'r dysgu trwy fewnbynau gan gyflogwyr. 		

Deunyddiau a gweithgareddau dysgu gweithredol

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae dysgu gweithredol yn golygu mynd ati'n weithredol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu eu hunain trwy drafodaethau, datrys problemau, gwneud, profi a dulliau eraill.	<ul style="list-style-type: none"> Mae dulliau dysgu gweithredol yn hybu mwy o annibyniaeth a chyfrifoldeb ar ddisgyblion am eu dysgu eu hunain Mae hefyd yn hwyluso datblygiad sgiliau dysgu uwch a dysgu trosglwyddadwy 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gweithgareddau gymryd mwy o amser i'w trefnu a bod yn fwy adnodd-ddwys Nid yw dulliau dysgu gweithredol yn cael gwared ar yr angen am gymorth strwythuredig gan yr hwylusydd 	<ul style="list-style-type: none"> Clwb Busnes amser cinio yn CA3 sy'n gyflwyniad i Astudiaethau Busnes yn CA4 Clybiau THALES (seiberddiogelwch) ar gyfer CA3 a CA4 Fe wnaeth dysgu creadigol drwy'r Celfyddydau hwyluso gwaith i gynhyrchu adnodd sy'n dangos i'r disgyblion sut i recordio sain a fideo gan ddefnyddio dyfeisiau symudol https://hwb.gov.wales/repository/resource/f651735b-4886-4ae0-a705-7fb1ef6b9385 Mae gan WWF Cymru Raglen Dyfodol Cynaliadwy wedi'i hanelu at bobl ifanc 14–18 oed sy'n canolbwyntio ar ddatblygu 10 sgil

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
			cynaliadwyedd gyda hyfforddiant am ddim i staff sy'n cyflwyno'r cwrs. Mae gwirfoddolwyr busnes yn cyfoethogi'r rhaglen

Adnoddau ar-lein

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae adnoddau ar-lein ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn ffordd gost-effeithiol i gynhyrchwyr (e.e. cyflogwyr, Gyrfa Cymru) gyrraedd mwy o ysgolion a disgyblion nag a fyddai'n bosibl trwy gyfarfyddiadau wyneb-yn-wyneb	<ul style="list-style-type: none"> Gall disgyblion gaffael sgiliau digidol wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn Yn aml, gall disgyblion gael mynediad at adnoddau ar eu pennau eu hunain ar unrhyw adeg 	<ul style="list-style-type: none"> Mae adnoddau ar-lein yn wasanaeth detholus felly ni fydd pob ysgol na disgybl yn dewis cael mynediad atynt Nid yw pob adnodd ar-lein yn rhad ac am ddim 	<ul style="list-style-type: none"> Fideos gan gyflogwyr a chyn-ddisgyblion wedi'u recordio ymlaen llaw

Astudiaethau achos

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae astudiaeth achos yn enghraifft o achos penodol o ddysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gellir eu creu mewn amrywiaeth o fformatau (e.e. ar ffurf testun, ar ffurf glywedol)	<ul style="list-style-type: none"> Weithiau, gall disgyblion ymgysylltu ac uniaethu'n fwy effeithiol ag enghraifft ymarferol 	<ul style="list-style-type: none"> Gall astudiaethau achos gymryd llawer o amser i'w creu Gallant ddyddio 	<ul style="list-style-type: none"> Adnoddau Hwb a Gyrfa Cymru

4.2.2 Gweithio gyda phartneriaid busnes

Cynnwys cyflogwyr yn y cwricwlwm / modelau rôl

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Gellir galw ar gyflogwyr i helpu gyda chynllunio agweddau penodol ar y cwricwlwm neu brosiectau penodol mewn ysgolion. Gall Uwch Reolwyr o fyd diwydiant sy'n gweithredu fel mentoriaid i Benaethiaid a'r Uwch Dîm Rheoli mewn ysgol ychwanegu gwerth at waith, a gwella gwaith, i ddatblygu strategaethau rheoli priodol ar gyfer ymdopi â newid sefydliadol mawr.	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gyflogwyr ac ysgolion gyd-greu adnoddau ar gyfer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar draws pob grŵp blwyddyn. Mae rhai cymwysterau'n dibynnu ar ymwneud gan gyflogwyr, e.e. BTECs, ASDAN 	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen sefydlu protocolau, e.e. ar gyfer diogelu ac asesu risg Mae angen cytuno ar 'gontractau' neu drefniadau ffurfiol i sicrhau cyfarfyddiadau ystyrion i ddisgyblion Mae angen briffio cyflogwyr fel y gellir 'anelu'r' gwaith yn gywir Gall tracio a chofnodi data ynghylch profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith fynd â llawer o amser i ysgolion 	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraethwyr cymunedol Mae disgyblion bl 8 a 9 sy'n gweithio tuag at eu Gwobr Cadetiaid Diwydiannol Efydd yn cwblhau prosiect STEM dros 20 awr gyda'u model rôl STEM eu hunain sy'n darparu arweiniad

Sgwrs gan gyflogwr

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae llawer o Gynghorau Sgiliau Sector yn annog unigolion i ymgymryd â rôl Llysgennad ar gyfer y sector diwydiant hwnnw a neilltuo rhywfaint o amser gwirfoddol i hyrwyddo cyfleoedd a llwybrau gyrfya trwy roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc sy'n ystyried yr opsiynau gyrfya yn y dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> Gallai llysgenhadon fod yn brentisiaid sy'n gallu dod â'r llwybr yn fyw Gellid defnyddio sgysiau mewn amrywiaeth o ffyrdd a chyda phob grŵp oedran, e.e. gwasanaethau, gwersi, nosweithiau rhieni, ffeiriau gyrfaoedd, 	<ul style="list-style-type: none"> Pryd i archebu digwyddiadau ac ar gyfer pa grwpiau blwyddyn Pwy y mae angen eu cynnwys, gan gynnwys darpariaeth gyflenwi ar gyfer staff, cymorth gweinyddol. Ble fydd y trafodaethau'n cael eu cynnal a 	<ul style="list-style-type: none"> 'Dyddiau diwydiant' Cyflwyniadau gan y Fyddin

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Yn gyffredinol, gofynnir i Lysgenhadon Diwydiannol neilltuo o leiaf un diwrnod y flwyddyn i'r gweithgaredd hwn – ond gall wastad bod yn fwy os yw'r unigolyn yn dymuno	arddangosfeydd dros dro yn ystod amser cinio.	threfniadau 'cwrdd a chyfarch' <ul style="list-style-type: none"> • Offer sy'n ofynnol 	

Mentora ac e-fentora gan gyflogwyr

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Cyflogwyr yn rhoi anogaeth a chymorth un-i-un i ddisgyblion.	<ul style="list-style-type: none"> • Codi dyheadau disgyblion a chynyddu cymhelliant. • Cefnogi astudiaethau a datblygu 'proffil sgiliau'. • Mae o fudd i ddisgyblion sy'n dewis optio i mewn i'r rhaglen fentora. Gall ysgolion dargeddu disgyblion y maen nhw'n meddwl y byddai o fudd iddynt gael mentor. 	<ul style="list-style-type: none"> • Angen cytuno ar hyd y rhaglen fentora. • Protocolau i'w sefydlu yn unol â pholisïau'r ysgol, e.e. gwiriadau diogelu ac asesu risg. 	

Coetsio ar gyfer swyddi

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae hyfforddwr sy'n coetsio ar gyfer swyddi'n weithiwr proffesiynol sy'n helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn aml yn gweithio i	<ul style="list-style-type: none"> • Gall y gwahanol fathau o hyfforddiant coetsio ar gyfer swyddi gynnwys: • Cwnsela ynghylch llwybr gyrfa i 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngedig yw'r amser sydd gan hyfforddwyr sy'n coetsio ar gyfer swyddi i'w roi i ysgolion yn wirfoddol oherwydd eu gwaith cyflogedig 	

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
gwmniau preifat yn ogystal ag i ysgolion. Mae hunangyflogaeth hefyd yn opsiwn i hyfforddwyr sy'n coetsio ar gyfer swyddi. Mae llawer yn dewis gweithio gyda chyn-filwyr, y rhai ag anableddau neu'r rhai sy'n wynebu heriau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.	<p>ddisgyblion BI10 ac 11</p> <ul style="list-style-type: none"> • Coetsio ar gyfer gyrfa i'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu 		

Ffug gyfweiliadau

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Gall ysgolion droi at gyflogwyr i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer cwblhau ceisiadau swyddi ffurfiol, gyda ffug gyfweiliad i ddilyn. Mae'r cyflogwyr yn darparu personél a swydd ddisgrifiadau go iawn at y diben, a gall cyfweiliadau o'r fath gael eu rhagflaenu a'u dilyn gan gyngor sy'n debygol o hogi technegau cyfweiliadau'r disgyblion pan ydynt yn ymgeisio am swyddi. Mae rhai ysgolion yn cynnwys ymarfer o'r fath wrth osod lleoliadau profiad gwaith hefyd.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cefnogi datblygiad sgiliau cyflogadwyedd – sut i baratoi ar gyfer eu camau nesaf. • Mae'n gwella sgiliau cyfathrebu trwy gwblhau cais a siarad gydag oedolyn nad ydynt wedi cwrdd ag ef/â hi o'r blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi deunyddiau, a chymorth ar gyfer y gweithgaredd. • Archebu ardal(oedd) i gynnal y gweithgaredd, gweithio gyda rheolwr y safle i sicrhau bod parcio ac offer ar gael. • Adnoddau ar gyfer tiwtoriaid a chyfranwyr at y cyfweiliadau. • Creu man ymgynnull ar gyfer cyfwelwyr a fydd yn cael ei ddefnyddio fel man aros cyn y digwyddiad a rhywle i gael lluniaeth a chael adborth ar ddiwedd y dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ffug gyfweiliadau ar gyfer disgyblion BI. 11 i'w paratoi ar gyfer cyfweiliadau ar gyfer y coleg, prentisiaethau a swyddi rhan-amser. • Ffug gyfweiliadau ar gyfer disgyblion BI. 12 i'w paratoi ar gyfer cyfweiliadau AU.

Gweithgaredd cyn-ddisgyblion/cyn-fyfyrrwyr

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Cyn-ddisgyblion ysgol, neu gyn-fyfyrrwyr coleg neu brifysgol sydd naill ai wedi mynychu neu wedi graddio mewn rhyw ffordd o'r sefydliad.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n cefnogi'r cysylltiadau rhwng astudio yn yr ysgol a byd gwaith. Mae profiadau o fywyd go iawn a chyflawniadau a rennir yn codi dyheadau ac yn cymell dysgwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> Sut i gysylltu â chyn-ddisgyblion. Hyrwyddo a thyfu'r rhwydwaith o gyn-ddisgyblion neu gyn-fyfyrrwyr. Annog y rhai sy'n gadael presennol i ymuno. 	<ul style="list-style-type: none"> Prosiect Cyn-ddisgyblion Gyrfa Cymru - mae GC yn helpu ysgolion uwchradd ledled Cymru i adeiladu eu cymunedau o gyn-ddisgyblion.

Ffeiriau Gyrfaoedd a Ffeiriau Gyrfaoedd Rhithwir

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae ffair swyddi, a elwir yn aml hefyd yn expo swyddi neu ffair gyrfaoedd neu expo gyrfaoedd, yn ddigwyddiad lle mae cyflogwyr, recriwtwyr ac ysgolion yn rhoi gwybodaeth i ddarpar gyflogeion. Mae ceiswyr gwaith yn mynychu ffeiriau swyddi i siarad wyneb yn wyneb gyda darpar gyflogwyr a gofyn cwestiynau am y gwahanol swyddi sydd ar gael. Yn ogystal â digwyddiadau yn y cnawd, mae ffeiriau swyddi ar-lein yn rhoi ffordd rithwir i geiswyr gwaith gysylltu â chyflogwyr posibl.	<ul style="list-style-type: none"> Digwyddiad mawr lle mae cyflogwyr lleol, AB/DHA, prifysgolion rhanbarthol a chyflogwyr cenedlaethol yn dod ynghyd mewn un lle ar yr un pryd. Gallant fod ar thema benodol / bod â ffocws penodol. Gall nifer o grwpiau blwyddyn, staff a rhieni/gofalwyr fod yn bresennol. Cyd-greu adnoddau. 	<ul style="list-style-type: none"> Amser i gynnal y ffair gyrfaoedd; a yw'n cefnogi cyfnodau pontio? Angen amser gweinyddol ar gyfer cysylltu, cyfathrebu, trefniadau cynnal ar y dydd pa un ai ar safle'r ysgol ynteu mewn man arall y cynhelir y digwyddiad. Paratoi disgyblion i gael y budd mwyaf posibl o'r profiad. Ôl-drafodaeth i wneud y gorau o'r ymgysylltiad trwy brofiad. Ymgysylltiad rhieni. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliodd coleg ffair gyrfaoedd ar gyfer ysgolion lleol. Cynhaliodd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ei arddangosfa rithwir gyrfaoedd cynnar gyntaf ar gyfer pobl ifanc 13-18 oed ym mis Mawrth 2023.

Gweithdai

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Cyflogwyr yn arwain trafodaethau gyda disgyblion ar safle'r ysgol, coleg neu gyflogwr am wirioneddau gwaith, a'r amgylchedd cyflogaeth a hyfforddiant.	<ul style="list-style-type: none"> Gallai hyn fod yn rhan o ffair gyrfaoedd neu efallai arddangosfa dros dro yn ystod amser cinio neu'n wers gyrfaoedd ar wahân. Wedi'i deilwra gan sectorau (Gwybodaeth am y Farchnad Lafur) ac yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. 	<ul style="list-style-type: none"> Sut i wneud y gorau o'r amser – cynnal arolwg gyda'r disgyblion i ddewis pa weithdy/ gweithdai y byddent yn eu cael yn ddiddorol a'u dyrannu. Bydd disgyblion yn paratoi cwestiynau ymlaen llaw. Pennu faint o amser a ble i'w cynnal 	<ul style="list-style-type: none"> Roedd Wythnos Darganfod Gyrfaoedd i Bl.7-11 yn cynnwys cyflwyniadau rhithwir ac adnoddau gan ystod o ddarparwyr sy'n gysylltiedig â meysydd dysgu a phrofiad. Roedd gweithdy cyfrifiadureg Bl.9 a hwyluswyd gan CGI (cwmni gwasanaethau ymgynghoriaeth TG a busnes) yn cynnwys disgyblion yn adeiladu car wedi'i bweru gan falŵn.

Rhwydweithio cyflym / Carwsél gyrfaoedd

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae ysgolion yn gwahodd siaradwyr o'r gweithle i ddod i roi gwybodaeth a chynghor am eu swyddi, ac awgrymu llwybrau gyrfa ar gyfer y disgyblion hynny sydd â diddordeb yn eu priod sectorau neu rolau gwaith. Gall siaradwyr o'r fath amlinellu'r sgiliau cyflogaeth hanfodol y mae eu hangen, a thrafod cyfatebiaeth rhwng cwricwlwm yr	<ul style="list-style-type: none"> Mae sefydliadau fel Speakers for Schools, Inspiring the Future yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ac yn eu 'lleoli' gydag ysgolion. Gellir defnyddio'r digwyddiad i herio stereoteipiau. 	<ul style="list-style-type: none"> Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwirfoddolwyr. Mae'r disgyblion yn paratoi cwestiynau ymlaen llaw. Penderfynu ar faint o amser a ble i'w cynnal. Archebu amser gyda rheolwr y safle i gadarnhau parcio, offer, cynllun. 	<ul style="list-style-type: none"> Dyddiau carwsél byd gwaith Gyrfa Cymru yn CA3 a 4, e.e. diwrnod gyrfaoedd yn lle dilyn yr amserlen arferol gyda phump o gyflogwyr yn rhoi cyflwyniadau ac yn ateb cwestiynau'r disgyblion.

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
ysgol ac anghenion gyrfa.			

4.2.3 Chwarae rôl, gemau ac efelychiadau busnes

Gemau busnes a chystadleuaeth menter

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Cyflogwyr yn gosod briffiau busnes i ddisgyblion fynd i'r afael â hwy. Mae'r math hwn o weithgaredd yn hybu gwaith tîm, arweinyddiaeth, cyfathrebu da, gweithio o fewn terfynau amser, datrys problemau ac mae angen dealltwriaeth am gyllid busnes.	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r sgiliau cyflogadwyedd a throsglwyddadwy y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. • Mae themâu'n cefnogi gweithio trawsgwricwlaidd. • Staff yn cael DPP ymhlyg. • Dysgu proffesiynol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Caniatáu amser ar gyfer cynllunio, cyflwyno ac ôl-drafodaeth. • Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â pherson/pobl o fyd fusnes. • Sicrhau bod y busnes yn deall sut y mae'r gweithgaredd yn ategu'r cwricwlwm ac unrhyw ddeilliannau dysgu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae disgyblion ADY yn rhedeg caffi a siop elusennol yn yr ysgol. Maent yn trwsio beiciau, yn tyfu planhigion, yn gwneud gemwaith ac yn argraffu mygiau a chrysau-T i'w gwerthu. • Mae'r Her Menter yn rhan o Fagloriaeth Cymru. • Y Dreigiau Ifanc (https://www.young-dragons.co.uk/) yw'r Her Menter Gynradd flynyddol a noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe. • Cystadleuaeth Dylunio Canolfan Blant ar gyfer plant o oedran cynradd.

4.2.4 Dysgu yn y gweithle

Ymweliadau â gweithleoedd – rhithwir a wyneb yn wyneb

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
<p>Mae ymweliadau â gweithleoedd y tu hwnt i'r ysgol yn cynnwys teithiau i safleoedd sy'n ehangu dealltwriaeth y disgyblion am y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael mewn sefydliad busnes. Mae'r cwmni'n cynnal yr ymweliad ac yn darparu cyflogeion i weithredu fel tywyswyr i grwpiau bach o ddisgyblion gan roi trosolwg iddynt ar y modd y mae'r cwmni'n gweithredu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maent yn cefnogi'r cysylltiadau ar gyfer y cwricwlwm a byd gwaith. • Dysgu am sut a pham y mae busnesau'n gweithredu. • Dysgu o gysylltiad â phobl sy'n gweithio. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhywfaint o gynllunio ymlaen llaw gydag athrawon yn hanfodol o ran yr hyn y dylai disgyblion chwilio amdano ar yr ymweliad. • Dylid cynnal sesiwn ôl-drafodaeth gyda'r disgyblion ar ddiwedd yr ymweliad. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymweliadau rhithwir Amgueddfa Cymru i ysgolion yn weithdai rhyngweithiol byw rhad-ac-am-ddim sydd wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr 7-11 oed https://museum.wales/learning/virtual-visits/. • Mae teithiau blynyddol gan yr adran Ffrangeg a Sbaeneg yn cynnwys ymweliadau â gweithleoedd. • Ymwelodd disgyblion Bl. 11 â safle adeiladu i ddysgu am bob cam sy'n rhan o'r gwaith adeiladu, o weld y gwaith i baratoi'r tir i drosglwyddo'r tŷ i berchnogion tai.

Cysgodi swyddi

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
<p>Gall disgyblion a/neu athrawon fod yn rhan o 'gysgodi' o'r fath. Mae'n ffordd arall o sefydlu'r cysylltiadau perthnasol rhwng y cwricwlwm academaidd ac anghenion ac ymarfer yn y gweithle. Mae'r disgybl a/neu'r athro neu athrawes yn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cysgodi nid yn unig yn gallu addysgu athrawon am arferion mewn gweithle go iawn, ond gallai o bosibl arwain at gynig swyddi penodol i bobl ifanc. • Mae'n rhoi cyfle i archwilio/ymchwilio i ddi-ddordeb 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd disgyblion yn cyflawni tasg yn y gwaith - maen nhw'n arsylwi ar ymarfer yn y gwaith. • Dylai'r profiad roi amser iddynt gasglu gwybodaeth a datblygu eu sgiliau cyfathrebu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth disgybl gysgodi'r Prif Swyddog Meddygol ar gyfer lechyd.

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
dilyn un person trwy gyfnod o amser gweithio y cytunwyd arno (ychydig oriau fel arfer) gan arsylwi ar y gofynion a'r sgiliau y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio.	<p>mewn sector penodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n gymharol fyr fel profiad gwirioneddol a gellir ei gynnal sawl gwaith ar draws y flwyddyn academaidd neu'r cyfnod allweddol. Gall ddarparu mynediad i weithleoedd nad ydynt yn cynnig lleoliadau gwaith. 	<ul style="list-style-type: none"> Hyd y profiad cysgodi gwaith i gael ei gytuno gyda chyflogwyr. 'Dyddiadur' cysgodi gwaith i gael ei gytuno rhwng yr ysgol a chyflogwyr. 	

Gwaith rhan-amser

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Yr oedran ieuengaf y gall plentyn weithio'n rhan-amser yw 13, ac eithrio plant sy'n gweithio mewn meysydd fel teledu, theatr a modelu (Gwiriwch reoliadau'r awdurdod lleol).	<ul style="list-style-type: none"> Mae pobl ifanc yn datblygu gwybodaeth am fyd gwaith yn ifanc, gan adnabod rolau a chyfrifoldebau. Maent yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd sylfaenol megis: rheoli amser, gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau. 	<ul style="list-style-type: none"> Effaith cydbwysedd rhwng ysgol a gwaith ar astudiaethau academaidd. Y nifer o oriau cyfreithlon ac ar ba ddyddiau y gwneir y gwaith. Nid oes isafswm cyflog i rai dan 16. 	

Gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
Mae gwirfoddoli yn weithred wirfoddol gan unigolyn neu grŵp sy'n rhoi amser a llafur am ddim i	<ul style="list-style-type: none"> Mae gwirfoddoli'n galluogi disgyblion i ymarfer a 	<ul style="list-style-type: none"> Math o wirfoddoli. Sefydliadau sy'n cefnogi gwirfoddoli. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Heddlu Bach – a ddarperir ar y cyd gan ysgolion a Heddlu Gwent -

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
wasanaeth cymunedol. Mae helpu eraill a chyfrannu at eich cymuned trwy weithredu cadarnhaol ac effeithiol yn gwneud i bobl deimlo'n dda.	<p>datblygu amrywiaeth o berthnasoedd cymdeithasol a sgiliau meddal eraill sy'n fuddiol i uchelgeisiau gyrfa.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd meddwl a lles. • Ymarfer budd cymdeithasol. • Adeiladu cymuned ac ehangu rhwydweithiau. • Paratoi ar gyfer gyrfa a chael profiad yn y byd go iawn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhesymau dros wirfoddoli. 	<p>yn gyfle gwirfoddoli i blant 9-11 oed.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae disgyblion Bl. 9 yn gwneud gweithgareddau garddio mewn tŷ mawr lleol sy'n agored i'r cyhoedd ac yn creu llwybr antur. • Mae disgyblion Bl.10 yn gwneud gweithgareddau cynnal a chadw amgylcheddol mewn ystâd leol fel rhan o'u hasesiad ar gyfer Her Gymunedol Bagloriaeth Cymru.

Profiad gwaith (cartref ac Ewropeaidd/rhyngwladol)

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
<p>Profiad gwaith (llai nag 1 wythnos). Profiad gwaith (bloc o 1-2 wythnos). Profiad gwaith (ymrwymiad rheolaidd/wythnosol)</p> <p>.</p> <p>Profiad gwaith yn yr ysgol/coleg. Yn aml caiff ei gynnal dros gyfnod o bythefnos, er bod rhai yn cael eu cynnal yn rhan-amser dros gyfnod hwy. Mae lleoliadau o'r fath yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal â rhoi blas iddynt ar fywyd gwaith a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fe'i cynigir yn dilyn nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn enwedig cysgodi swyddi. • Mae'n eu hannog i feddwl am eu dyfodol. • Maen nhw'n cael cyfleoedd i ddysgu am Wybodaeth am y Farchnad Lafur a pha mor ddefnyddiol ydyw iddyn nhw. • Gallant gael gafael ar gymorth cymdeithasol i'w helpu i wneud 	<ul style="list-style-type: none"> • Dod o hyd i ddigon o leoliadau o ansawdd da ar gyfer grŵp blwyddyn cyfan. • Paratoi disgyblion ymhell ymlaen llaw a threfnu gweithgareddau dilynol, yn enwedig ar gyfer myfyrio. • Briffio cyflogwyr a chynnal ôl-drafodaeth gyda hwy. • Amseru lleoliadau yn y flwyddyn academaidd. Cystadleuaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgolion yn ardal un cyngor yn cynnig profiad gwaith dros gyfnod byr o 1 wythnos i'r holl ddysgwyr ym mlwyddyn 10 a phythefnos i'r holl ddysgwyr ym mlwyddyn 12. • Y Lleoliadau Profiad Gwaith wedi'i Deilwra a reolir gan Gyrfu Cymru mewn pum awdurdod lleol (rhan o brosiect 'adnewyddu a diwygio' Llywodraeth Cymru.

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
<p>chyfrifoldeb. Mae llawer o ddisgyblion yn 'blodeuo' mewn amgylchedd o'r fath, ac yn dod o hyd i adnoddau wrth gefn newydd ar ffurf menter ac aeddfedwydd. Maent yn amlwg yn datblygu ymdeimlad o ofynion y gweithle a bywyd gwaith, ac efallai y bydd rhai yn wir yn parhau mewn swyddi o'r fath pan fyddant yn gadael yr ysgol. Yn aml bydd swyddi o'r fath yn eu cysylltu â chymwysterau addysgol a galwedigaethol pellach.</p>	<p>penderfyniadau gwybodus am eu gyrfa yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellir defnyddio prosiectau i gysylltu'r cwricwlwm â byd gwaith. • Aeddfedwydd y disgyblion. • Gall helpu i ysgogi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r ysgol. 	<p>rhwng ysgolion lleol ar yr un adeg o'r flwyddyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg. • Costau rhedeg, e.e. cyflogi gweinyddwr, talu am fetio lleoliadau os ydych yn defnyddio asiantaeth allanol. • Sicrhau mynediad teg wrth ddyrannu lleoliadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Ymddiriedolaeth Jon Egging ar y cyd ag RAF y Fali yn rhedeg tair rhaglen Blue Skies (Lefel 1 – gwaith tîm, Lefel 2 – Arweinyddiaeth, Lefel 3 – Profiad Gwaith) gyda 10-15 disgybl ar bob lefel.

Profiad gwaith (Rhithwir)

Diffiniad	Manteision	Heriau	Enghreifftiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
<p>Cynhelir 'ymweliadau' o'r fath trwy wefannau cwmnïau lle gall disgyblion fynd ar daith o amgylch gweithle gan weld y priod safle ac adnabod yr holl rolau arbenigol ynddo.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ffordd gost-effeithiol o gyflwyno disgyblion i fydd gwaith. • Adeiladu 'banc' o ymweliadau. • Gellir ei gynnal yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol, yn gysylltiedig ag oriau gwaith. • Nid oes rhaid i fusnesau adael eu gweithle, defnydd mwy effeithlon o'u hamser. • Mae grwpiau bychain yn cael 	<ul style="list-style-type: none"> • Efallai na fydd disgyblion yn enwedig y rhai sydd ag AAAA/ Awtistiaeth yn cael cymaint o fudd o'r profiad. • Bod systemau TG yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. • Os yw'r disgyblion yn ei wneud yn eu hamser eu hunain sut mae'r profiad yn cael ei dracio? • Dylai amser a neilltuir i baratoi, darparu a 	<ul style="list-style-type: none"> • Speakers for Schools.

Diffiniad	Manteision	Heriau	Engbreiffiau o ymarfer yn ysgolion Cymru
	y profiad ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd.	chynnal ôl-drafodaeth ar gyfer yr holl randdeiliaid fod mor fanwl ag ar gyfer profiad gwaith gwirioneddol neu ymweliad gwirioneddol â gweithle.	

4.3 Amcanion ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Mae'r adroddiad hwn yn nodi chwe phrif amcan ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith sy'n berthnasol i ysgolion Cymru (Gweler Tabl Pedwar). Gall ysgolion ddefnyddio amcanion ar gyfer:

- Dadansoddi anghenion - nodi blaenoriaethau ond hefyd bylchau yn narpariaeth yr ysgol.
- Diffinio hawl disgyblion a'r deilliannau bwriadedig.
- Cynllunio dysgu ac asesu.
- Cynllunio a datblygu'r cwricwlwm.
- Monitro, adolygu a gwerthuso.

Tabl Pedwar: Amcanion ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Amcanion profiad sy'n gysylltiedig â byd gwaith (ar ôl QCA, 2008). Mae'r holl ddysgwyr:	Mathau o weithgareddau a phrofiadau a awgrymir	Deilliannau dysgu bwriadedig – Galluogi dysgwyr i:
1. yn cysylltu'r hyn a ddysgir ganddynt o fewn y cwricwlwm â gyrfaoedd a byd gwaith.	3-11 oed Testunau (Yn seiliedig ar y MDaPh) Ymweliadau Ymwelwyr 11-16 oed Prosiectau ac ymholiadau (Yn seiliedig ar y MDaPh) Ymweliadau Ymwelwyr	Cryfhau eu cymhelliant i ddysgu trwy fywyd. Esbonio perthnasedd yr hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol i gyrfaoedd a gwaith. Codi cyflawniad.
2. yn datblygu eu dealltwriaeth am yrfaeod a byd gwaith yn barhaus.	3-11 oed Sgyrsiau a deialog Testunau a themâu Ymweliadau Ymwelwyr 11-16 oed Sgyrsiau a deialog, e.e. yn ystod amser cofrestru Prosiectau ac ymholiadau	Dod o hyd i Wybodaeth am y Farchnad Lafur a'i dehongli. Cyfrannu at ddatblygu cymunedau lleol ffyniannus a chymdeithas ac economi iach. Datblygu eu gwerthoedd eu hunain mewn perthynas â

Amcanion profiad sy'n gysylltiedig â byd gwaith (ar ôl QCA, 2008). Mae'r holl ddysgwyr:	Mathau o weithgareddau a phrofiadau a awgrymir	Deilliannau dysgu bwriadedig – Galluogi dysgwyr i:
	Ymweliadau Ymwelwyr Arsylwi ar waith Cysgodi swyddi	materion mawr fel cyfiawnder cymdeithasol a byw a gweithio'n gynaliadwy.
3. yn caffael ac yn datblygu sgiliau bywyd a gwaith.	3-7 oed Chwarae rôl 7-16 oed Efelychiadau a gemau Gweithdai a dosbarthiadau meistr Gwirfoddoli.	Datblygu sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd. Adnabod a datblygu sgiliau cyflogadwyedd a menter. Datblygu sgiliau'r FfCD (Fframwaith Cymhwysedd Digidol).
4. yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, prosiectau a heriau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.	3-16 oed Efelychiadau a gemau Mentrau bychain a mentrau ysgol Efelychiadau a gemau Mentrau bychain a mentrau ysgol Heriau a chystadlaethau busnes Clybiau ysgol.	Dangos sgiliau arwain. Gweithio mewn tîm. Datblygu sgiliau datrys problemau. Adnabod a dangos sgiliau menter. Hybu dealltwriaeth am sefydliadau a diwylliannau busnes.
5. yn cael profiad o rolau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a'r tasgau sy'n gysylltiedig â hwy.	3-7 oed Chwarae rôl 7-11 oed Profiadau sy'n gysylltiedig â rôl 11-16 oed Profiadau sy'n gysylltiedig â rôl Profiad gwaith	Gweithio mewn tîm Cynnal arferion iechyd a diogelwch. Dangos sgiliau cyflogadwyedd (e.e. prydlondeb, dibynadwyedd, cyfathrebu).
6. yn datblygu'r adnoddau personol y mae eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol.	3-7 oed Adeiladu portffolio 7-11 oed Adeiladu portffolio Mentora gan gymheiriaid 11-16 oed Adeiladu portffolio Mentora gan gymheiriaid a busnesau	Caffael sgiliau cymdeithasu. Myfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Codi dyheadau / gallu uchelgeisiol. Meithrin cydnerthedd. Herio stereoteipiau Datblygu sgiliau dysgu annibynnol. Datblygu sgiliau rheoli gyrfa, e.e. cynllunio, penderfynu, pontio, rhwydweithio.

Mantais bosibl y dull hwn yw y gall fod yn sail i hawl neu warant i bob dysgwr. Gellir mynegi 'hawliau' mewn gwahanol ffyrdd:

- Hawl i wahanol fathau o weithgareddau, e.e. un cyfarfyddiad ystyrion gyda chyflogwr y flwyddyn ac un lleoliad profiad gwaith cyn 16 ac un arall ar ôl 16. (Mae ystyrion yn derm nad yw bob amser yn cael ei ddiffinio'n glir. Diffiniad Sefydliad Gatsby (2014) o 'ystyrion'

yw bod dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio ystyr eu cyfarfyddiadau â chyflogwyr a dysgu oddi wrthynt).

- Hawl i gyflawni deilliannau dysgu penodol, e.e. datblygu sgiliau gofal cwsmeriaid a datblygu sgiliau CV ac ymgeisio am swydd.
- Hawl i nifer benodol o oriau o amser cwricwlwm neu nifer benodol o oriau dysgu dan arweiniad, e.e. 6 awr y flwyddyn pan ydynt yn 3 a 50 awr y flwyddyn pan ydynt yn 16 oed.

Ymagwedd sy'n cyfuno'r dulliau hyn yw darparu offeryn cynllunio a chofnodi'r cwricwlwm i ysgolion (gweler Tabl Pump).

Tabl Pump: Taenlen cynllunio a chofnodi'r cwricwlwm ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Gweithgaredd	Blwyd dyn/ grŵp	Llythrennau cyntaf staff:	Math				Amcanion / cwmpas						Dyddiad(au)	Oriau		
			1	2	3	4	1	2	3	4	5	6				
Cystadleuaeth Dylunio Canolfan Blant	Bl. 5	JL			✓		✓					✓	✓		24.03.23	2
Allwedd																
Math o brofiad sy'n gysylltiedig â byd gwaith 1. Adnoddau a deunyddiau. 2. Gweithio gyda phartneriaid busnes. 3. Chwarae rôl, gemau ac efelychiadau busnes. 4. Dysgu yn y gweithle. Oriau Dylid cynnwys amser paratoi, cyflwyno ac adborth.			Amcanion ar gyfer profiadau dysgu sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae'r holl ddysgwyr: 1. Yn cysylltu'r hyn a ddysgir ganddynt o fewn y cwricwlwm â gyrfaedd a gwaith. 2. Yn datblygu eu dealltwriaeth am yrfaedd a byd gwaith yn barhaus. 3. Yn caffael ac yn datblygu sgiliau bywyd a gwaith. 4. Yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, prosiectau a heriau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. 5. Yn cael profiad o rolau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a'r tasgau sy'n gysylltiedig â hwy. 6. Yn datblygu'r adnoddau personol y mae eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol.													

Gall yr enghraifft hon a weithiwyd yn rhannol o daenlen cynllunio a chofnodi gael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Mae'n galluogi ysgolion i gynllunio a monitro rhaglen gydlynol, gytbwys a chynyddol o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ar gyfer pob dysgwr sydd wedi'i gwreiddio yn y cwricwlwm cyfan.
- Gellir ei rhannu gyda'r holl staff fel eu bod yn gallu rhoi eu data eu hunain i mewn.
- Gellir troi'r disgrifiad o'r gweithgaredd yn hyperddolen sy'n cysylltu â mwy o fanylion am y gweithgaredd a'r adnoddau a ddefnyddir.
- Gellir ychwanegu rhagor o feysydd yn ôl yr angen, e.e. i gofnodi'r busnesau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd.

4.4 Deilliannau profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Cyfyngwyd ers tro byd ar gefnogaeth bolisi ar gyfer buddsoddi mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith gan ddiffyg astudiaethau hydredol trylwyr i ddatgelu effaith a bylchau yn y dystiolaeth ymchwil sy'n bodoli (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2021). Yn Lloegr, mae llunio polisiau gwrthgyferbyniol hefyd wedi effeithio ar gefnogaeth ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm (Edge, 2018).

Mae ymchwil flaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar effeithiolrwydd profiad gwaith, ond yn gyffredinol mae asesiadau o gryfder y sylfaen dystiolaeth yn nodi ei bod ar lefel 2 ar Raddfa Dystiolaeth y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar (Buzzeo a Cifci, 2017; EIF, 2023). Mae angen rhagor o ymchwil i effaith profiadau eraill sy'n gysylltiedig â byd gwaith fel cysgodi swyddi ac ymweliadau â gweithleoedd ac, yn arbennig o berthnasol i gwricwlwm Cymru, effaith profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith i blant 3-11 oed.

Ni ddylid dehongli'r diffyg tystiolaeth 'galed' o astudiaethau meintiol fel rheswm dros beidio â chefnogi gweithgareddau partneriaeth addysg-busnes. Mae ymchwil ar raddfa fawr yn gostus ac yn aml yn codi materion moesegol (hap-dreialon dan reolaeth, er enghraifft, sy'n dibynnu ar amddifadu carfan o fanteision yr ymyriad sy'n cael ei astudio). Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn wasgaredig gan dargedu gwahanol fathau o ymyriadau ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr mewn gwahanol leoliadau ac i brofi gwahanol ragdybiaethau ynglŷn â deilliannau dymunol. Mae adolygiad llawn o'r dystiolaeth y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r dystiolaeth a gronwyd o astudiaethau a gynhaliwyd yn dda yn y DU ac yn rhyngwladol yn awgrymu llawer o fanteision cadarnhaol, a manteision posibl, ac yn llawn cyn bwysiced, dim effeithiau negyddol (SQW, 2022).

Deilliannau i ddysgwyr

Mae'r llenyddiaeth ymchwil (Buzzeo a Cifci, 2017; Robertson, 2021) yn awgrymu y gall dysgwyr gyflawni chwe math o ddeilliannau o ganlyniad i gymryd rhan mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith:

- **Boddhad defnyddwyr** – mae dysgwyr yn dweud eu bod wedi cael y profiad yn bleserus a/neu'n ddefnyddiol.
- **Deilliannau dysgu** – mae dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth well (e.e. mewnwelediadau i waith, sut i werthuso swydd), sgiliau (e.e. sgiliau cyflogadwyedd a rheoli gyrfa) ac agweddau (e.e. cymhelliant, ymrwymiad i ddysgu gydol oes).
- **Deilliannau seicolegol/ymddygiadol** – mae dysgwyr yn hybu eu hannibyniaeth bersonol, eu lles a'u heffeithiolrwydd (e.e. maent yn gwneud cynnydd o ran eu hyder wrth bontio, gallu uchelgeisiol, hunan-effeithiolrwydd, gallu i addasu, gobaith, cydnerthedd, hapusrwydd, optimistiaeth. Efallai y bydd y cynnydd gyda'r rhain yn effeithio ar eu gallu'n ddiweddarach yn eu hoes i ddewis y ffordd o fyw a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a ffeirir ganddynt).
- **Deilliannau addysgol** – e.e. ennill cymwysterau hylendid bwyd, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch a sgiliau bywyd a gwaith. Mae dysgwyr yn cael canlyniadau arholiadau a chymwysterau gwell nag a ddisgwyliid yn flaenorol ar ôl cymryd rhan mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Maent yn symud ymlaen i addysg bellach ac uwch.
- **Deilliannau economaidd** – mae dysgwyr yn fwy effeithiol wrth wneud cais am gyrsiau a swyddi sy'n eu bodloni'n bersonol. Maent yn fwy tebygol o gael eu cyflogi. Canfu un

astudiaeth arloesol yn y DU gysylltiad rhwng cyswllt â chyflogwyr mewn addysg uwchradd a chyflogau uwch (Mann a Percy, 2013).

- **Deilliannau cymdeithasol** – dysgwyr yn datblygu sgiliau rhyngpersonol. Maent yn gallu cyfathrebu a chydweithio ag eraill yn well. Trwy gyfrannu at les pobl eraill, maent yn gallu helpu cymunedau i ffynnu yn well.

Yn ddiweddar, datblygwyd sawl fframwaith newydd sy'n nodi meysydd neu ddibenion dysgu sy'n ymwneud ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith y gellir grwpio deilliannau dysgu bwriadedig oddi tanynt. Mae Atodiad A yn rhoi dwy enghraifft o fframweithiau o'r fath gyda sylwebaeth ar eu cymhwysedd i'r cyd-destun Cymreig.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, cynhaliodd un ysgol arolwg gyda'i disgyblion Blwyddyn 10 i holi ynghylch eu canfyddiad am fanteision y lleoliadau profiad gwaith. Cymerodd 115 allan o 130 o ddisgyblion ran mewn profiad gwaith ac atebodd 57 y ddau gwestiwn a oedd yn seiliedig ar arolwg y Warant i Bobl Ifanc. (Gweler Tabl 6 isod). Roedd y deilliannau seicolegol/ymddygiadol ac addysgol yn amlwg iawn yn eu hymatebion i gwestiwn un. Datgelodd cwestiwn dau anfodlonrwydd isel ymhlith defnyddwyr heblaw am y ffaith y byddent wedi hoffi cael mwy o gyfrifoldeb ac wedi hoffi pe bai'r lleoliad wedi para'n hwy.

Tabl Chwech: Canfyddiadau am fanteision profiad gwaith gan ddisgyblion Blwyddyn 10 (n = 57)

C1. Pa rai o'r datganiadau canlynol ynghylch eich profiad gwaith diweddar sy'n berthnasol i chi? Dewis bob un sy'n berthnasol	
Rhoddodd fwy o hyder i mi ymgeisio am swydd yn y dyfodol	64.9%
Fe wnaeth fy helpu i ddatblygu sgiliau y gallaf eu rhoi ar fy CV	70.1%
Fe wnaeth fy helpu i ddeall pa sgiliau neu gymwysterau y mae eu hangen ar gyfer y swydd	50.8%
Fe wnaeth fy helpu i benderfynu pa fath o swydd y mae arnaf eisiau ei gwneud yn y dyfodol	45.6%
Rhoddodd y profiad yr oedd ei angen arnaf i wneud cais am y swydd y mae arnaf ei heisiau	45.6%
C2. Beth allai fod wedi gwneud eich profiad gwaith yn well? Dewiswch bob un sy'n berthnasol	
Bod mewn sector y mae gen i ddiddordeb ynddo	31.5%
Esboniad gwell o'm cyfrifoldebau o'r dechrau	35.0%
Pe bai'r profiad gwaith wedi para'n hwy	45.6%
Cael mwy o gyfrifoldeb fel y gallwn ddysgu mwy o sgiliau	43.8%
Cael mwy o gymorth yn ystod y lleoliad gwaith	21.0%

Sefydliad Edge

Sgiliau cyflogadwyedd yw'r sgiliau y mae eu hangen i gael a chadw swydd. Mae gwahanol sefydliadau wedi datblygu fframweithiau sgiliau cyflogadwyedd at ddibenion penodol (e.e. sgiliau cyflogadwyedd sector-benodol) ac mae'r fframweithiau hyn yn aml yn gorgyffwrdd â sgiliau eraill (e.e. sgiliau rheoli gyrfa, sgiliau meddal, sgiliau sylfaenol). Aeth Sefydliad Edge (Kashefpakdel et al., 2018; Emms et al., 2023) i'r afael â'r mater hwn trwy adnabod y sgiliau a'r cymwyseddau cyflogadwyedd a oedd yn cael eu nodi'n fwyaf cyffredin gan gyflogwyr fel rhai sy'n berthnasol i'w hanghenion. Fe wnaethant hefyd bwysleisio pwysigrwydd caffael strategaethau metawybyddol gan ddysgwyr i allu trosglwyddo a chymhwyso eu sgiliau a'u cymwyseddau cyflogadwyedd mewn sefyllfaoedd newydd. Mae'r ymchwil wedi'i diweddarau

hefyd yn adrodd ar ganfyddiadau disgyblion am y sgiliau cyflogadwyedd yr oeddent yn eu datblygu fwyaf a lleiaf yn yr ysgol. Mae Tabl Saith yn mapio Fframwaith Sefydliad Edge yn erbyn y Pedwar Diben:

Tabl 7: Mapio Fframwaith Sefydliad Edge yn erbyn y Pedwar Diben

Sgiliau a chymwyseddau cyflogadwyedd	Y pedwar diben Pobl ifanc sydd:
Datrys problemau	<ul style="list-style-type: none"> yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
Hunanreolaeth	<ul style="list-style-type: none"> â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant
Gwaith tîm	<ul style="list-style-type: none"> yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
Creadigrwydd	<ul style="list-style-type: none"> yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
Rhifedd	<ul style="list-style-type: none"> yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
Sgiliau digidol	<ul style="list-style-type: none"> yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
Gwybodus (am fyd gwaith)	<ul style="list-style-type: none"> yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
Hyder	<ul style="list-style-type: none"> yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
Ysgogiad	<ul style="list-style-type: none"> yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa
Cydnherthedd	<ul style="list-style-type: none"> yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
Myfyrio	<ul style="list-style-type: none"> yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

Mae'r ymarfer mapio hwn yn dangos bod sgiliau cyflogadwyedd eisoes wedi'u gwreiddio yn y pedwar diben heb fod angen fframwaith arall. Yr her sy'n wynebu ysgolion yw:

- Sut i'w gwneud yn glir i ddysgwyr pa sgiliau cyflogadwyedd y maent yn eu datblygu mewn gweithgareddau dysgu penodol.
- Sut i hwyluso'r broses o ddysgu'r sgiliau hyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn drosglwyddadwy.
- Sut i asesu perfformiad yn y sgiliau hyn.
- Sut i gynllunio cwricwlwm sbiral sydd o gymorth i ddatblygu sgiliau eang a chytbwys.

Ymchwil Arad

Nododd Ymchwil Arad (2021) sawl her wrth ddarparu profiad gwaith, gan gynnwys llwyth gwaith athrawon, ac argaeledd ac anawsterau lleoliadau fesul sector, maint cyflogwr, lleoliad, cost teithio ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Fe wnaethant nodi hefyd bod dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o gael mynediad at brofiad gwaith mewn gweithleoedd 'statws uchel'. Mae'r adroddiad yn argymhell camau gweithredu allweddol y mae eu hangen. Fe'u hatgynhyrchir isod fel pwyntiau bwled gyda sylwebaeth yn seiliedig ar yr ymchwil ddesg a chyfweliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

- *Paru disgyblion â chyfleoedd sy'n eu hystyngiadau yn briodol*

Mae hwn yn nod ehangach na pharu disgyblion â chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'u diddordebau gyrfa nad yw bob amser yn bosibl. Beth bynnag, mae'n bwysig egluro wrth ddisgyblion beth allant ei gyflawni ar eu lleoliad er mwyn lleihau'r camgymhariad mewn disgywliadau.

- *Amlinellu manteision derbyn pobl ifanc ar brofiad gwaith*

Mae'r manteision posibl i gyflogwyr wedi caen eu nodi gan Smithers a Marsden (Smithers a Marsden, d.d.).

- *Cefnogi cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith drwy gydol y flwyddyn academaidd*

Gall ysgolion sy'n rhan o glwstwr neu rwydwaith drafod rhyngddynt wrth bennu dyddiadau eu cynlluniau profiad gwaith er mwyn osgoi gorlwytho cyflogwyr; ond mae pwysau paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau yn lleihau'r hyblygrwydd y mae ysgolion yn barod i'w gynig.

- *Cynyddu mynediad myfyrwyr ôl-16 i brofiad gwaith*

Canfu Adroddiad Cam 2 Gwarant i Bobl Ifanc (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2023) fod pobl ifanc 16–18 oed yn fwy tebygol o gael eu profiad yn ddefnyddiol na phobl ifanc 19–24 oed. Mae profiad gwaith wedi'i dargedu yn fwy effeithiol pan fo mewn sector sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau y mae disgyblion yn eu gwneud. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio ei bod yn rhy gynnar i ddisgyblion ganolbwyntio ar un llwybr felly ei bod yn werth sicrhau bod dysgwyr yn gallu rhoi cynnig ar sawl math gwahanol o brofiad gwaith.

- *Helpu disgyblion i baratoi ar gyfer profiad gwaith a rhoi adborth arno*

Archwiliodd Buzzeo and Cifci (2017) y dystiolaeth am effeithiolrwydd darparu profiad gwaith a daethant i'r casgliad bod angen paratoi disgyblion yn briodol a chynnal ôl-drafodaeth briodol gyda hwy er mwyn iddynt wneud y gorau o'u lleoliadau. At hyn gellir ychwanegu pwysigrwydd ymweliadau gan staff â disgyblion ar brofiad gwaith i gynnal sgwrs strwythuredig gyda hwy am yr hyn maen nhw'n ei ddysgu o'u lleoliadau.

- *Cefnogi rhyngweithio dro ar ôl tro â chyflogwyr*

Roedd adroddiad diweddar (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2021b) yn cefnogi'r syniad o leoliadau olynol ac yn cynnwys astudiaeth achos o'r Ffindir lle mae disgyblion yn cael dau leoliad cyn 16. Model posibl i Gymru yw bod disgyblion yn cael lleoliad cyn 16 oed, i helpu disgyblion i wneud penderfyniadau am eu cyrsiau a'u manau astudio ôl-16, a lleoliad ar ôl 16 i gyd-fynd â'u cyrsiau presennol a'u diddordebau gyrfa. Mae hwn yn senario gwahanol iawn i'r model yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a ddatblygwyd yn Seland Newydd. Mae'n gohirio profiad gwaith tan ar ôl 16 (gweler Tabl Wyth). Mae gan y model resymeg linol sy'n ddeniadol ar yr wyneb, ond

nid yw'n adlewyrchu'n gywir y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn datblygu eu diddordebau gyrfa.

Tabl wyth: Model ar gyfer ymgysylltu â gweithleoedd c10-18 (David Turner)

Amlygiad i waith	Archwilio gwaith	Profiad gwaith
<p>Gweithgareddau sy'n cyflwyno syniadau, gwybodaeth a chysyniadau am fyd gwaith a datblygiad gyrfa.</p> <p>Wedi'i anelu'n bennaf at bobl ifanc rhwng 10 i 14 oed.</p> <p>Mae gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafodaethau am alwedigaethau rhieni • sgysiau gyrfaoedd gan bobl mewn gwaith am y swyddi maen nhw'n eu gwneud a'r gwerth maen nhw'n ei ganfod ynddyn nhw • trafodaethau am gymeriad rhyweddol gwaith • ymweliadau â gweithleoedd • Integreiddio enghreifftiau yn y gweithle o fewn cwricwla cysylltiedig. 	<p>Gweithgareddau lle mae pobl ifanc yn mynd ati'n weithredol i archwilio ac ymchwilio i fyd gwaith.</p> <p>Wedi'i anelu'n bennaf at bobl ifanc 13 i 16 oed.</p> <p>Mae gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgysiau gyrfaoedd gan bobl mewn gwaith am y swyddi maen nhw'n eu gwneud a sut i gael mynediad atynt. • Ymchwil gan ddisgyblion i alwedigaethau penodol, mynediad atynt a'u nodweddion tebygol yn y dyfodol. • Datblygu sgiliau ysgrifennu CV a sgiliau cyfweiliad gyda gwirfoddolwyr sy'n gyflogeion. • Cysgodi swyddi. • Trafodaethau (sgysiau gyrfa) gyda phobl mewn gwaith am ddatblygiad galwedigaethau yn y dyfodol. 	<p>Gweithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd agos a mwy parhaus i bobl ifanc arsylwi a chyfranogi mewn un neu fwy nag un gweithle.</p> <p>Wedi'i anelu'n bennaf at bobl ifanc 16 i 18 oed.</p> <p>Mae gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleoliadau gwaith yn y gymuned ac mewn gweithleoedd, gan wneud gwaith dan oruchwyliaeth am un wythnos. • Cysgodi gwaith sy'n canolbwyntio ar gwestiynau ymchwil penodol. • mentrau disgyblion a gefnogir gan gyflogeion sy'n gwirfoddoli fel hyfforddwy coetsio • prosiectau sy'n ymwneud â gwaith disgyblion sy'n mynd i'r afael â heriau cymunedol lleol gyda hyfforddwy coetsio gwirfoddol • fforwm cyflogwyr a drefnir gan ddisgyblion i ddod â disgyblion a chyflogwyr ynghyd i drafod disgwyliadau a chyfleoedd

- *Cefnogi cyflogwyr a busnesau sy'n derbyn myfyrwyr ar brofiad gwaith*

Bydd canllawiau cenedlaethol yn helpu cyflogwyr a busnesau i ddeall amcanion profiad gwaith, i wybod beth i'w ddisgwyl a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gall ysgolion ategu'r cymorth hwn drwy ddarparu gwybodaeth am eu cynlluniau i gyflogwyr lleol a'u cynnwys yn uniongyrchol yn rhai o'r gweithgareddau paratoi a dilynol. Mae cyfathrebu da gyda chyflogwyr a busnesau yn hanfodol.

- *Cefnogi cyfleoedd profiad gwaith yn yr ysgol a gyda chyflenwyr*

Mae hon yn ffordd effeithiol iawn o ddarparu profiad gwaith i ddisgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol fel disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau; ond gallai profiad gwaith o fewn yr ysgol a chyda chyflenwyr fod yn fuddiol i unrhyw ddisgyblion.

- *Monitro a gwerthuso ansawdd profiad gwaith*

Gall ysgolion ddefnyddio ystod o dechnegau gwerthuso sy'n ddichonadwy ac sy'n cynhyrchu tystiolaeth ddigon cadarn i fesur effaith a goleuo gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch gwelliannau i'w cynllun profiad gwaith yn y dyfodol. Gall arolygon a holiaduron ddarparu data meintiol ond gall grwpiau ffocws a chraffu ar ddyddiaduron profiad gwaith disgyblion hefyd fod yn oleuol. Gall y diffyg monitro a gwerthuso arwain at broblemau a deilliannau gwaeth.

- *Nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at brofiad gwaith. (Millard et al. 2019)*

Dylai ysgolion fod â pholisi profiad gwaith sy'n nodi'n benodol egwyddor mynediad teg at gyfleoedd profiad gwaith. Canfu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod "mynediad i weithleoedd trwy leoliadau/interniaethau gwaith yn gysylltiedig yn aml iawn â chefnidir cymdeithasol disgyblion, yn enwedig pan fydd eu hysgolion yn gyfrifol am ddod o hyd i leoliad gyda chymorth eu teulu. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir disgwyl patrymau atgynhyrchu cymdeithasol wrth i ddisgyblion gael profiad sylweddol o broffesiynau lle mae gan eu rhieni gysylltiadau gwell." (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2022, t.9).

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

Yn ddiweddar, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi cyhoeddi tri adroddiad o ddiddordeb yn ei gyfres Policy Perspectives. Er eu bod yn darparu tystiolaeth werthfawr o fanteision economaidd cadarnhaol profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar fathau eraill o ddeilliannau, e.e. seicolegol/ymddygiadol, dysgu, addysgol a chymdeithasol. Y tri adroddiad yw:

1. *Indicators of teenage career readiness: guidance for policy makers.* (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2021a)

Mae'r adroddiad yn nodi 11 dangosydd o barodrwydd ar gyfer gyrfa ac yn cynnig arweiniad i lunwyr polisi ynghylch sut i greu'r amodau a fydd yn meithrin parodrwydd ar gyfer gyrfa. Gellir rhoi hwb i'r saith dangosydd yn y cyfnodau archwilio a phrofi trwy brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Dangosyddion rhyngwladol wedi'u cadarnhau o barodrwydd pobl ifanc yn eu harddegau ar gyfer gyrfa

Archwilio'r dyfodol

Ymgysylltu â phobl mewn gwaith trwy sgysiau gyrfaoedd neu ffeiriau swyddi Ymweliadau â gweithleoedd neu gysgodi swyddi Gweithgareddau datblygu sgiliau ymgeisio a sgiliau cyfweiliad Sgysiau gyrfaoedd – gan gynnwys gydag athrawon Rhaglenni byr sy'n canolbwyntio ar alwedigaethau
--

Profi'r dyfodol

Gweithio'n rhan-amser Gwifoddoli

Meddwl am y dyfodol

Dangosyddion rhyngwladol wedi'u cadarnhau o barodrwydd pobl ifanc yn eu harddegau ar gyfer gyrfa

Sicrwydd gyrfa Uchelgais gyrfa Aliniad gyrfa Cymhelliant cyfrannol tuag at yr ysgol
--

Un o gasgliadau'r prosiect parodrwydd ar gyfer gyrfa yw y gall disgyblion sy'n gadael addysg gyda phrofiad uniongyrchol o gyfranogi mewn gweithleoedd ddisgwyl pontio'n fwy llyfn i waith llawn-amser.

2. *Experiencing the workplace: the importance and benefits for teenagers.* (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2021b)

Casgliad yr adroddiad hwn yw bod y dystiolaeth ynghylch manteision profi'r gweithle (e.e. trwy brofiad gwaith, gwaith rhan-amser a gwirfoddoli) yn arbennig o gryf. Mae'n cyflwyno canfyddiadau astudiaethau rhyngwladol hydredol sy'n dangos effaith gadarnhaol ar ddeilliannau cyflogaeth megis cyflog uwch. Mae hefyd yn trafod y manteision o ran hwb i gyfalaf dynol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'n argymhell, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, bod yn rhaid i ysgolion roi sylw i baratoi a disgyblion sy'n cael lleoliadau a gwneud gwaith dilynol gyda hwy.

3. *Job Shadowing: a guide to delivering an effective career development activity* (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2022)

Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau yng Nghanada, Seland Newydd, Malta, yr Almaen a'r Unol Daleithiau. Mae ei brif gasgliadau ynghylch cysgodi swyddi fel a ganlyn:

- Yr adeg orau i ddarparu'r cyfleoedd hyn yw pan fo disgyblion yn 13-16 oed yn dilyn gweithgareddau archwilio gyrfaedd helaeth a gweithgareddau ymgysylltu dwfn rhagflaenol fel lleoliadau gwaith a gwirfoddoli
- Gall ysgolion gynyddu'r manteision i'r eithaf trwy baratoi disgyblion yn dda, trwy ddylunio profiadau sy'n ddiledryw, yn rhoi mewnwelediad ac yn gynhyrchol, a thrwy alluogi disgyblion i feddwl yn feirniadol am y profiad (cyn ac ar ôl hynny)
- Ymhlith y manteision posibl ar unwaith mae rhoi cyfle i ddisgyblion 'egluo a chadarnhau cynlluniau gyrfa, cael gwybodaeth newydd ddefnyddiol am y ffordd orau o baratoi ar gyfer mynediad i alwedigaethau o ddi-ddordeb' (t.16) a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol o werth i ddatblygiad gyrfa y tu allan i'w rhwydweithiau presennol.
- Mae peth tystiolaeth ar gael bod cysgodi swyddi yn dwyn budd cadarnhaol ar gyfer deilliannau cyflogaeth hirdymor.

Deilliannau i ysgolion

Mae Smithers a Marsden (n.d.) yn nodi pum math o fudd. Mae cysylltiadau addysg-busnes:

- Yn cyfrannu at gymhelliant a datblygiad staff a disgyblion, e.e. datblygu sgiliau penodol, gan gynnwys arwain a rheoli.
- Yn creu cyfle i ddeall, dylanwadu a dysgu oddi wrth fusnesau, e.e. dealltwriaeth well am fyd gwaith.

- Yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus, e.e. mynediad at fwy o wybodaeth a ffynonellau cyngor uniongyrchol a modelau rôl.
- Yn ennyn ewyllys da ysgolion a sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.
- Yn rhoi mynediad at adnoddau, e.e. cymorth ariannol ar gyfer prosiectau a digwyddiadau.

At hyn rhaid ychwanegu cysylltiad â gwella ysgolion.

Deilliannau i fusnesau

Mae Smither a Marsden hefyd yn trafod y budd i fusnesau gan ddefnyddio penawdau tebyg. Mae cysylltiadau addysg-busnes:

- Yn cyfrannu at gymhelliant a datblygiad staff, e.e. cyfoethogi swyddi a hyfforddiant anffurfiol.
- Yn creu cyfleoedd i ddeall, dylanwadu a dysgu o addysg, e.e. cyfraniad mwy gwybodus at gyrff llywodraethu.
- Yn helpu i recriwtio yn y tymor byr a'r tymor hir, e.e. gwneud cwmni'n fwy deniadol.
- Yn ennyn ewyllys da, e.e. gwella enw da cwmni/ei drwydded i weithredu.
- Yn rhoi mynediad at adnoddau, e.e. mae lleoliadau athrawon yn dod ag arbenigedd a safbwyntiau newydd i'r cwmni.

Hefyd, mae busnesau'n cael bod gweithgareddau addysg-busnes o fudd am eu bod yn 'cymdeithasoli pobl ifanc rhag blaen' ar gyfer byd gwaith, yn hybu moeseg waith gadarnhaol ac o gymorth i gaffael sgiliau sy'n hybu bodlonrwydd swydd a pharodrwydd ar gyfer gyrfa a gwaith.

I fusnesau, nid yw llawer o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â byd gwaith y maent yn eu cefnogi'n dwyn gwerth gweithredol uniongyrchol i'w busnes ond maent yn fuddsoddiad yn y dyfodol ar ran pob busnes.

5 Casgliadau ac argymhellion

Mae'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn wedi nodi pum prif faes blaenoriaeth sy'n allweddol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc trwy brofiadau gwaith.

5.1 Y seilwaith cymorth i ysgolion a busnesau

Yn gyffredinol, mae Gyrfa Cymru yn uchel ei barch ymhlith ysgolion am ei broffesiynoldeb a chysondeb ei wasanaethau. Mae mewn sefyllfa dda trwy ei Gynghorwyr Ymgysylltu â Busnesau, Cynghorwyr Gyrfaoedd a Thimau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith tra chymwysedig i gryfhau'r seilwaith cymorth i ysgolion a busnesau. Mae angen i'w rôl fel darparwr gwasanaethau cyffredinol a detholus ond hefyd fel galluogydd a hwylusydd gwasanaethau pwrpasol dyfu i wynebu'r heriau sydd i ddod. Mae'r cytundebau partneriaeth blyneddol gydag ysgolion yn fecanwaith hynod effeithiol i ysgolion a Gyrfa Cymru gytuno ar eu priod gyfraniadau at gynllun gweithredu profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac i adolygu'r flwyddyn flaenorol. Mae partneriaethau strategol gyda busnesau a darparwyr eraill yn ffordd hynod effeithiol o reoli profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith hefyd. Er mwyn estyn cylch gwaith Gyrfa Cymru bydd yn rhaid wrth gynnydd mewn adnoddau hyd yn oed ar ôl cynnal ymarfer posibl i ailfodelu rhai o'i wasanaethau eraill (yn enwedig ar ôl colli prosiectau byrdymor). Er hynny, bydd angen cymryd camau i liniaru risgiau fel y galw am eu gwasanaethau o blith ysgolion yn mynd yn fwy na'r capasiti, gwasanaethau arloesol yn profi'n anghynaliadwy yn ariannol ac ymdrin â'r straen sy'n gysylltiedig â rheoli newid. Mae'r rhestr o fentrau yng nghynllun gweithredol 2022-23 eisoes yn drawiadol, ond gallai eu rôl hefyd gynnwys:

- Cynyddu'r cymorth i ysgolion sydd â phlant o oedran cynradd roi Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar waith yn y Cwricwlwm i Gymru.
- Cydlynu ac ehangu darpariaeth profiad gwaith cyn-16 ac ôl-16. Mae adfer gwasanaeth fetio am ddim yn rhywbeth y byddai ysgolion yn ei groesawu'n arbennig. Gallai hwn gael ei reoli'n uniongyrchol gan y Tîm Cynghorwyr Ymgysylltu â Busnesau, ond cael ei is-gontractio hefyd i sefydliadau cymeradwy sydd eisoes yn darparu gwasanaeth mewn rhai ardaloedd. Bydd datblygu canllawiau profiad gwaith newydd ar gyfer ysgolion a busnesau yn eu helpu i ddilyn gofynion cyfreithiol ac o ran yswiriant ond bydd hefyd yn gwella ansawdd a safonau.
- Datblygu mwy o adnoddau, deunyddiau a gweithgareddau newydd, mewn partneriaeth gydag ysgolion a busnesau. Byddai ysgolion yn croesawu cyfeiriadur ar-lein o adnoddau, astudiaethau achos a phrosiectau, heriau a chystadlaethau newydd mewn perthynas â'r cwricwlwm a hwnnw'n gyfeiriadur a gaiff ei guradu a'i ddiweddarau.
- Rhedeg rhaglenni peilot newydd a allai, pe baent yn llwyddiannus, gael eu hestyn yn genedlaethol, e.e. pasbort digidol, bathodynau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith digidol, cynllun peilot e-bortffolio, a rhaglenni ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATH).
- Cyhoeddi ail rifyn o'r pecyn cymorth a blwch offer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith gydag adnoddau a deunyddiau i helpu rheolwyr cwricwlwm mewn ysgolion i ddylunio, datblygu ac adolygu eu darpariaeth o ran profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gallai'r pecyn cymorth amlinellu'r ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a disgrifio'r chwe amcan a'r pedwar math o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gallai'r blwch offer gynnwys yr offeryn cynllunio a chofnodi oriau cwricwlwm sy'n galluogi ysgolion i dracio'r ddarpariaeth ar gyfer pob grŵp neu garfan.

5.2 Ansawdd a safonau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth a blwch offer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith 3-16 ar gyfer ysgolion ac wedi cymeradwyo datblygu Gwobr Ansawdd Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith newydd. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal cynllun Gwobrau Partner Gwerthfawr blynyddol gan gynnwys gwobr i'r cyflogwr profiad gwaith mwyaf cefnogol. Mae'r rhain yn cyfrannu at wella ansawdd a chodi safonau. Mae cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i ysgolion a busnesau ar redeg cynlluniau profiad neu leoliad gwaith effeithiol wedi cael ei grybwyll uchod. Mae opsiynau eraill yn cynnwys:

- Cryfhau'r meini prawf sy'n ymwneud â phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y Wobr Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith sy'n cael ei datblygu.
- Datblygu gwobr ansawdd profiad gwaith.
- Cynnig hyfforddiant i staff addysgu a gweinyddol sy'n ymwneud â rhedeg cynlluniau profiad gwaith.
- Datblygu rôl cynghorwyr ymgysylltu â busnesau o ran cefnogi clystyrau a rhwydweithiau lleol o ysgolion i reoli profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn eu hardaloedd yn fwy effeithiol.
- Gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith mewn ysgolion.
- Datblygu agenda ymchwil. Mae adolygiadau o lenyddiaeth wedi amlygu'r agweddau ar brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith na wnaed digon o ymchwil iddynt. Byddai'n ddefnyddiol datblygu rhaglen ymchwil i oleuo arfer gorau a'r arfer nesaf sy'n dod i'r amlwg.

5.3 Yr ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Profiad gwaith yw'r gweithgaredd mwyaf adnabyddus, ond mae rhai mathau eraill o brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith heb gymaint o dystiolaeth ohonynt yn ysgolion Cymru. Dylid annog ysgolion i ddod i wybod am weithgareddau eraill a sut y gallant fod o fudd i'w disgyblion. Gall mentoriaid busnes neu fodolau rôl, er enghraifft, gymell ac ennyn diddordeb disgyblion yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Gall disgyblion ifancach, ond hefyd rhai hŷn, gael budd o arsylwi ar waith a chysgodi swyddi y gellir ei wneud yn rhithwir, wyneb yn wyneb neu drwy gyfuniad o'r ddau. Gall heriau busnes, gan gynnwys y rhai a fodelwyd ar fformatau teledu poblogaidd, fod yn llwyddiannus iawn hefyd.

5.4 Deilliannau ac effaith

Mae ffocws cryf ar ystyr ac effaith yn helpu i sicrhau bod y profiadau a gynllunnir yn berthnasol, yn addysgegol gadarn ac yn arwain at ddeilliannau gwerth chweil.

Mae angen i asesu deilliannau cyfranogiad disgyblion mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith fod yn rhan annatod o'r broses ddysgu fel ei fod yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac yn goleuo'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu nesaf.

Mae dull y gallai fod yn werth ei dreialu gyda grŵp o ysgolion yn seiliedig ar 'ddysgu gan ddefnyddio e-bortffolio' a bathodynau digidol. Mae e-bortffolio Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn gynnyrch ac yn amgylchedd dysgu sy'n defnyddio prosesau dysgu effeithiol. Fel cynnyrch, mae'n gasgliad o dystiolaeth a all gynnwys manylion cynlluniau, targedau, profiadau a chyflawniadau dysgwr. Mae disgyblion yn mwynhau dathlu eu profiadau ond mae portffolio hefyd yn ffynhonnell data y gall dysgwyr ei defnyddio, er enghraifft i gyflwyno'u hunain a'u cyflawniadau i gyflogwyr. Gallai deilliannau achrededig megis unedau a

chymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu mewn sgiliau bywyd a gwaith a'r elfen o Fagloriaeth Cymru sy'n gysylltiedig â byd gwaith gael eu cofnodi. Gallai bathodynau digidol gael eu storio yn e-bortffolio disgybl hefyd.

Fel proses ddysgu (Belgrad, Burke a Fogarty, 2008), mae portffolio (electronig) yn seiliedig ar egwyddorion casglu, dethol a myfyrio. Gall y prosesau hyn gael eu gwella trwy drefnu bod staff (e.e. tiwtoriaid) a, lle y bo'n briodol, mentoriaid busnes yn cefnogi dysgwyr. Bydd angen rhoi cryn ystyriaeth i ddyluniad, costau a defnyddiau ehangach posibl system portffolio (electronig) ar gyfer dysgwyr. Mae mentrau blaenorol tebyg (e.e. Cofnodion Cyrhaeddiad, Ffeil Cynnydd, pasbortau sgiliau) wedi bod yn anodd i'w cynnal.

Canfu dadansoddiad o ymchwil i asesu effeithiol gan Black *et al.* (2002) fod dulliau asesu ar gyfer dysgu (e.e. cael gwybodaeth, rhoi adborth priodol, sicrhau bod dysgwyr yn deall ansawdd a dysgwyr yn asesu cymheiriaid ac yn hunanasesu) yn fwy effeithiol nag asesu dysgu ar gyfer helpu dysgwyr i wella. Mae asesu ar gyfer dysgu'n ddelfrydol ar gyfer amgylchedd dysgu sy'n defnyddio portffolio.

Gallai bathodynau digidol gael eu creu gan sefydliadau megis Gyrfa Cymru, ysgolion a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol eu hunain y gellir eu dyfarnu gan ddefnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu gyda'r budd ychwanegol y gellir eu defnyddio i gydnabod ac achredu cyflawniadau dysgwyr mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (gweler Atodiad B).

5.5 Arloesi

Nid yw arloesi bob amser yn llwyddiannus. Roedd yr ymateb i'r fenter profiad gwaith rhithwir Speakers for Schools, er enghraifft, yn siomedig. Mae llawer yn dibynnu ar amseriad, costau a chapasiti ysgolion, busnesau ac asiantaethau partner i newid eu harfer; ond bydd arloesi mewn perthynas â phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn helpu i ysbrydoli dysgwyr. Mae'r syniadau ar gyfer datblygiadau newydd yn cynnwys:

- Mae ar ysgolion cynradd angen help i roi Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith ar waith. Byddai'n ddefnyddiol i bob ysgol pe bai grŵp peilot o ysgolion yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a busnesau lleol i ddatblygu a chyhoeddi ystod o adnoddau a deunyddiau addysgu ar gyfer yr ystafell ddosbarth sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae cyfle hefyd i annog cyhoeddwr masnachol i gynhyrchu adnoddau a deunyddiau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith sydd wedi'u hanelu at y cwricwlwm newydd.
- Bydd disgyblion sy'n mynd drwy'r system ysgolion yn awr yn wynebu canlyniadau argyfwng yr hinsawdd a'r amgylchedd. Un o'r ymatebion sydd ar gael iddynt yw cofleidio arferion byw a gweithio'n gynaliadwy, ond mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth, adnoddau a gweithgareddau i'w helpu. Gall cydweithio rhwng ysgolion, busnesau a Gyrfa Cymru i ddatblygu gemau, efelychiadau, prosiectau a heriau 'sero net' ysbrydoli teithiau gyrfa plant a phobl ifanc.
- Gan ysbrydoli pobl ifanc i ehangu eu gorwelion gan ddefnyddio technegau gemeiddio, dylai Gyrfa Cymru barhau i ddatblygu CrefftGyrfaoedd Gyrfa Cymru ymhellach.
- Mae gan fathodynau digidol y potensial i gryfhau deilliannau ac effaith cyfranogiad disgyblion mewn profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Gallai cynllun peilot gydag ysgolion, busnesau, Gyrfa Cymru ac un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu'r defnydd o fathodynau digidol gael effaith fawr ar ddatblygiad gyrfaol pobl ifanc 14-18 oed. (Gellid treialu tystysgrifau a bathodynau digidol yn yr ysgol gyda disgyblion ifancach). Byddai datblygu cyfres o fathodynau lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith sy'n canolbwyntio ar sectorau'r economi sy'n bwysig ar gyfer ffyniant Cymru yn y dyfodol yn ddeniadol i awdurdodau lleol a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Sylwadau i gloi

Mae gan y datblygiad presennol mewn gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith y potensial i greu system addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o safon fyd-eang. Mae perthnasoedd cryf rhwng ysgolion, busnesau a'r gwasanaeth gyrfaoedd Cymru gyfan ynghyd â'r diwygiadau sylfaenol, galluogol i'r cwricwlwm a chymwysterau'n creu'r amodau delfrydol i arloesedd a gwelliant ffynnu.

6 Cyfeirnodau

Ymchwil Arad. (2021, Medi). *Mapio ac adolygu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ar draws ysgolion yng Nghymru*. Ymchwil Arad.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/mapio-ac-adolygu-gweithgaredd-mentergarwch-a-meithrin-cysylltiadau-a-chyflogwyr-ar-draws-ysgolion-yng-nghymru.pdf>

Ball, B. (1984). *Careers Counselling in Practice*. Llundain: Falmer Press.

Belgrad, S., Burke, K. a Fogarty, R.J. (Eds.) (2008). *The portfolio connection: Student work linked to standards*. (3rd ed.). Thousand Oaks, CA: Corwin.

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. a William, D. (2002). *Working inside the black box: assessment for learning in the classroom*. Llundain: GL Assessment.

Buzzeo, J. a Cifci, M. (2017). Work experience, job shadowing and workplace visits. What works?. The Careers & Enterprise Company.

<https://resources.careersandenterprise.co.uk/resources/work-experience-job-shadowing-and-workplace-visits-what-works>

Gyrfa Cymru. (2021) *Dyfodol Disglair*. <https://gyrfacymru.llyw.cymru/amdanom-ni/dyfodol-disglair>

Gyrfa Cymru (2022a). *Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith): Pecyn cymorth i gefnogi datblygiad Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith mewn ysgolion a lleoliadau*. <https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/gyrfaoedd-yn-y-cwricwlwm/pecyn-cymorth>

Gyrfa Cymru (2022b). *Pecyn adnoddau addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith*. https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/pecyn-adnoddau-gyrfaoedd-a-phrofiadau-byd-gwaith_1.pdf

Cegnet. (2016). *Digital Careers Badges*.

CIOS Careers Hub (2023, Chwefror). *Work experience for students with SEND*. Careers Hub: Cornwall and Isles of Scilly. <https://www.careershubcios.co.uk/schools-colleges/benchmark-6/work-experience-for-students-with-send/>

Cynghrair Seicoleg yr Hinsawdd. (2022, Awst 29). *Climate Psychology Handbook*. <https://www.climatepsychologyalliance.org/index.php/component/content/article/climate-psychology-handbook?catid=15&Itemid=101>

Y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar. (2023, Chwefror). *EIF Evidence Standards*. <http://guidebook.eif.org.uk/eif-evidence-standards>

Education Scotland (2016). *Work placements and work-related learning*. [Tudalen we]. <https://education.gov.scot/improvement/learning-resources/work-placements-and-work-related-learning/#:~:text=The%20Work%20Placements%20Standard%20is,providing%20helpful%20support%20and%20guidance.>

Edwards, A. a Barnes, A. (1997). *Effective Careers Education and Guidance*. Stafford: Network Educational Press.

Estyn. (2020, Chwefror). *Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig*. <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Partnerships%20with%20employers%20in%20secondary%20and%20special%20schools%20cy.pdf>

Emms, K., Laczik, A. a Quyoum, A. (2023) *The perspectives of learners – How are schools developing employability skills?* Joint Dialogue Phase 2. Llundain: Sefydliad Edge

Hickman, C., Marks, E., Pihkala, P., Clayton, S., Lewandowski, R. E., Mayall, E. E., Wray, B., Mellor, C., a van Susteren, L. (2021). Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: A global survey. *The Lancet. Planetary Health*, 5(12), e863-e873. [https://doi.org/10.1016/S2542-5196\(21\)00278-3](https://doi.org/10.1016/S2542-5196(21)00278-3)

Hooley, T. (2016). *Effective employer mentoring: lessons from the evidence*. Llundain: The Careers & Enterprise Company. <https://resources.careersandenterprise.co.uk/sites/default/files/2021-09/Effective%20employer%20mentoring.pdf>

Howard, K.A.s. a Walsh, M.E. (2011). 'Children's Conceptions of Career Choice and Attainment: Model Development'. *Journal of Career Development* 38: 256.

Kashefpakdel, E.T., Newton, O., Clark, J., Rehill, J., Emms, K., Laczik, A. (2018). *Joint Dialogue: How are schools developing real employability skills?* Llundain: Education and Employers, Sefydliad Edge a'r Undeb Addysg Cenedlaethol.

Kashefpakdel, E. a Percy, C. (2022, Tachwedd). *Work Experience for All: Exploring the impacts of work experience on young people's outcomes*. Speakers for School. https://www.speakersforschools.org/wp-content/uploads/2022/11/SP-2074_SFS-Work-Experience-For-All-YouGov-Report_v1.pdf

Kolb, D.A. (1984). *Experiential Learning*. Prentice Hall: New Jersey.

Law, B. (1996). 'Career-learning theory'. yn A G Watts, Bill Law, John Killeen, Jennifer M Kidd a Ruth Hawthorn. *Rethinking Careers Education and Guidance - Theory, Policy and Practice*. Llundain: Routledge.

Mann, A. a Percy, C. (2013). Employer engagement in British secondary education: wage earning outcomes experienced by young adults. *Journal of Education and Work*. https://www.educationandemployers.org/wp-content/uploads/2014/06/mann_percy_journal_of_education_and_work_2013.pdf

Mann, A., Percy, C. a Kashefpakdel, E. (2018). 'Socialised social capital? The capacity of schools to use careers provision to compensate for social capital deficiencies among teenagers'. Yn A. Mann, P. Huddleston a E. Kashefpakdel (eds.). (2018). *Essays on Employer Engagement*. Llundain: Routledge. <https://www.educationandemployers.org/research/socialised-social-capital/>

NatCen Social Research a SQW. (2017). *Work experience and related activities in schools and colleges Research report*. Yr Adran Addysg <https://www.gov.uk/government/publications/work-experience-and-related-activities-in-schools-and-colleges>

Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru <https://www.rspnorth.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=2&mid=17&fileid=32>

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. (2021a). *Indicators of teenage career readiness: guidance for policy makers*. Education Policy Perspectives y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd Rhif 43. <https://www.oecd.org/education/indicators-of-teenage-career-readiness-6a80e0cc-en.htm>

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. (2021b). *Experiencing the workplace: the importance and benefits for teenagers*. Policy Perspectives Rhif 45. <https://read.oecd.org/10.1787/b679d759-en?format=pdf>

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. (2022). *Job Shadowing: a guide to delivering an effective career development activity*. Policy Perspectives Rhif 62. <https://www.oecd.org/education/job-shadowing-614f4e25-en.htm>

Percy, C. a Kashefpakdel, E. (2021). 'Linking education and employers: Taxonomies, rationales and barriers.' Yn P.J.Robertson, T. Hooley a P. McCash (Gol.) *The Oxford Handbook of Career Development*. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

QCA. (2008). *Career, work-related learning and enterprise 11-19: A framework to support economic wellbeing*. Llundain: Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm.

Robertson, P. J. (2021). 'Evidence-based practice for career development.' Yn P.J. Robertson, T. Hooley a P. McCash (Gol.) *The Oxford Handbook of Career Development*. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Smithers, A. a Marsden, C. (d.d.) *Assessing the Value*. BP.

Speakers for Schools (<https://www.speakersforschools.org/>)

SQW. (2022, Rhagfyr). *International work experience practices: A rapid evidence review for Speakers for Schools*. Speakers for Schools. <https://www.speakersforschools.org/wp-content/uploads/2022/12/SQW-Rapid-Review-of-the-Evidence-on-Work-Experience-FINAL-with-foreword.pdf>

Addewid Caerdydd. <https://cardiffcommitment.co.uk/index.php/en/>

Llywodraeth Cymru. (2022, Rhagfyr). *Strategaeth Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2022*. [https://www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-adroddiad-cynnydd-2022-html#:~:text=Mae%27r%20rhain%20yn%20dangos%20yr%20amcangyfrifir%20bod%2031%25%20o%20blant%20Cymru%20yn%20byw%20mewn%20tlodi%20incwm%20cymharol%20\(ar%20%C3%B4l%20costau%20tai\).%20Mae%20hyn%20yn%20cyfateb%20i%20tua%20190%2C000%20o%20blant%20dibynnol%20dan%2019%20oed.](https://www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-adroddiad-cynnydd-2022-html#:~:text=Mae%27r%20rhain%20yn%20dangos%20yr%20amcangyfrifir%20bod%2031%25%20o%20blant%20Cymru%20yn%20byw%20mewn%20tlodi%20incwm%20cymharol%20(ar%20%C3%B4l%20costau%20tai).%20Mae%20hyn%20yn%20cyfateb%20i%20tua%20190%2C000%20o%20blant%20dibynnol%20dan%2019%20oed.)

Llywodraeth Cymru (2023, Chwefror). Strategaeth arloesi newydd wedi'i lansio er mwyn creu Cymru gryfach, decach a mwy gwyrdd <https://www.llyw.cymru/strategaeth-arloesi-newydd-wedii-lansio-er-mwyn-creu-cymru-gryfach-decach-mwy-gwyrdd>


Llywodraeth Cymru (2023, Mawrth). *Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol*. Adroddiad Cam 2. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/3/4/1678369544/sgwrs-genedlaethol-gwarant-pobl-ifanc-diweddariad-i-gyfranogwyr.pdf>

Atodiad A – Enghreifftiau o fframweithiau dysgu sy'n ymwneud ag Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith

Fframwaith Datblygu Gyrfa CDI

Lansiodd y Sefydliad Datblygu Gyrfa fframwaith newydd yn 2020 (<https://www.thecdi.net/New-Career-Development-Framework>). Mae'r fframwaith eisoes wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Gyrfa Cymru. Mae'n nodi chwe maes dysgu (gweler y graffig isod) ac yn awgrymu deilliannau dysgu eang ym mhob maes. Mae'r fframwaith wedi'i fwriadu i fod yn un pob oed a hyd yma mae llawlyfrau wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer ysgolion cynradd (https://www.thecdi.net/write/Framework/CDI_124-Framework-Handbook_for_schools-v5.pdf) ac ysgolion uwchradd (https://www.thecdi.net/write/Framework/CDI_107-Framework_Handbook-web_Updated.pdf).

Tra bo modelau datblygu gyrfa eraill yn syml yn tynnu sylw at bwysigrwydd archwilio gyrfa, mae fframwaith CDI yn mynd ymhellach i bwysleisio pwysigrwydd galluogi dysgwyr i greu cyfleoedd iddyn nhw eu hunain, h.y. bod yn fentrus wrth reoli eu gyrfaoedd. Mae'r fframwaith yn mentro i feysydd dysgu newydd eraill trwy annog ysgolion i ganolbwyntio ar ddysgu sy'n gysylltiedig â chydbywysedd rhwng bywyd a gwaith (h.y. byw a gweithio'n iach) a'r darlun mawr (e.e. materion sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd).



New Brunswick

Mae fframwaith New Brunswick yn fodel dysgu gwybyddol sy'n seiliedig ar feddwl am yrfaeodd mewn ffordd linol (gweler y prif benawdau yn y tabl isod). Nid yw'r dull hwn yn cyfateb i'r ffordd y bydd rhai unigolion yn mynd ati i ddatblygu eu gyrfa, h.y. trwy 'ddysgu trwy wneud' yn hytrach na sgwrs academaidd. Mae llawer o'r datganiadau dysgu wedi'u hysgrifennu mewn iaith y bydd plant a phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ei deall. Weithiau, mae'r ymdrechion i ddangos cynnydd mewn dysgu yn ymddangos yn fympwyol ac afrealistig. Nid yw'r fframwaith heb ei rinweddau ond mae'n debygol y bydd ysgolion yn ei gael yn annichonadwy i'w roi ar waith gyda nifer fawr o ddisgyblion. Maent yn fwy tebygol o'i ddefnyddio'n ddetholus fel banc o ddatganiadau posibl i dynnu arnynt.

MEDDWL AM FY LLWYBR GYRFA POSIBL

Datblygu gweledigaeth wybodus ar gyfer y dyfodol sy'n gysylltiedig â'm diddordebau, dewisiadau, gwerthoedd a galluoedd

- Datblygu cynllun llwybr gyrfa gwybodus ar gyfer fy nyfodol
- Deall sut y gall fy nysgu helpu i sicrhau llwybr gyrfa dymunol
- Deall y bydd cymwyseddau cyffredinol yn fy helpu i gyflawni'r dyfodol a ffefrir gennyf
- Datblygu llwybr gyrfa gwybodus gyda gwybodaeth am y farchnad lafur
- Deall sut mae datblygu gyrfa/cynllunio proses bontio'n cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol
- Deall nad yw mynediad at waith dymunol bob amser yn deg ac yn gyfartal
- Deall y dylanwedir arnaf yn fy newisiadau gan bwy rwy'n eu gweld yn cael eu cynrychioli mewn gwahanol lwybrau gyrfa
- Deall bod cefnogaeth ychwanegol ar gael i'm helpu i gyflawni'r llwybr gyrfa a ffefrir gennyf

ARCHWILIO FY LLWYBR GYRFA POSIBL

Ymchwilio'n feirniadol i'r farchnad lafur a'r llwybrau gyrfa y gallaf ddisgwyl eu cael fwyaf boddhaus

- Rhyngweithio gyda chwyselwyr ysgol ynghylch cyfarwyddyd gyrfaoedd
- Gwneud cysylltiadau gyrfaoel wrth ymweld â lleoliadau y tu allan i'r ysgol
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i gael mynediad at waith
- Deall manteision cymryd rhan mewn dysgu wedi'i integreiddio â gwaith (e.e., Mentrau Cydweithredol, prentisiaethau, interniaethau)
- Cymryd rhan mewn sgysiau gyrfaoedd
- Deall gwirioneddau a phosibiliadau cyflogaeth safonol ac ansafonol
- Defnyddio offer ar-lein wrth ddatblygu gyrfa
- Deall yr ystod o gyfleoedd addysg/hyfforddiant/cymunedol ar gyfer llwybr ôl-uwchradd
- Cynllunio ar gyfer pontio mewn dysgu cynnar, yn yr ysgol a'r tu hwnt

PROFI FY LLWYBR GYRFA POSIBL

Dysgu am lwybrau gyrfa sydd o ddiddordeb trwy gymryd rhan mewn dysgu trwy brofiad sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a hynny'n aml ac yn barhaus

- Cymryd rhan mewn profiadau diledryw sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd
- Archwilio gwirioneddau a phosibiliadau gweithio (am dâl/yn ddi-dâl) ochr yn ochr ag addysg
- Archwilio'r posibilrwydd o wirfoddoli ochr yn ochr ag addysg

Atodiad B – Bathodynnau Digidol a phortffolios ar-lein ar gyfer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith

Mae bathodyn digidol yn gynrychiolaeth weledol o gyflawniad dysgwr. Gall ysgolion, cyrff dyfarnu neu gyflogwyr greu bathodynnau i gofnodi a chydabod cyflawniadau disgyblion o gymryd rhan mewn profiadau dysgu ac asesu ffurfiol ac anffurfiol. Pan fydd disgybl wedi ennill bathodyn, gall ei arddangos mewn portffolio ar-lein, gwefan bersonol neu ei atodi wrth CV neu ffurflen gais ar-lein. Bydd clicio ar y bathodyn yn datgelu gwybodaeth am y dyroddwr, y meini prawf ar gyfer ennill y bathodyn, y dystiolaeth neu'r asesiad a ddefnyddiwyd i wirio'r cyflawniad a'r dyddiad y cafodd ei ennill. Gellir eu rhannu ar-lein trwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost, neu lwyfannau digidol eraill, a gellir eu harddangos ar grynodedau gyrfa digidol, gwefannau personol, neu bortffolios ar-lein. Dros amser, gall dyroddwyr ddatblygu cyfres o fathodynnau i ddarparu llwybr dysgu cynyddol ar gyfer disgyblion (Ash, 2012).

Mae bathodynnau digidol yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae bathodynnau agored Mozilla (<http://openbadges.org/>) yn fformat rhad ac am ddim sy'n galluogi sefydliadau i greu eu bathodynnau eu hunain. Mae llwyfannau y codir tâl amdanynt ar gael hefyd.

Gall bathodynnau wneud dysgu ac asesu Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith yn gyffrous ac yn hwyl. Maent yn harneisio cymhelliant 'mewnol' trwy'r mathau o dasgau y mae disgyblion yn eu cyflawni a chymhelliant 'allanol' trwy wobrwyo â'r bathodyn ei hun (Bettany, 2016). Byddant hefyd yn helpu i hyrwyddo dysgu lefel uwch trwy hybu dealltwriaeth a myfyrio metawybyddol. Mae bathodynnau hefyd yn datblygu sgiliau digidol a chyfryngau cymdeithasol disgyblion.

Dolenni defnyddiol

Ash, K. (2012) "Digital Badges' Would Represent Students' Skill Acquisition' Education Week 05:03 t 24-30 [Cyrchwyd ar-lein <http://www.edweek.org/dd/articles/2012/06/13/03badges.h05.html>]

Bettany, J. (2016) Digital Badging in Initial Teacher Education, BETT Show [Cyrchwyd ar-lein http://www.bettshow.com/files/day_2_james_bettany.pdf]

Enghreifftiau o fathodynnau (a grëwyd gan Cegnet)

Bathodyn Cyflogadwyedd

Fe'i dyfernir am fod wedi dangos a rhoi tystiolaeth o'r sgiliau cyflogadwyedd a ddisgwyllir gennych yn ystod lleoliad gwaith neu brofiad cyfatebol.

Beth i'w wneud ar gyfer y bathodyn

Tasg 1 – Dangos cyfrifoldeb personol

Cyrraedd ar amser; gwisgo dillad addas; gwranddo ar gyfarwyddiadau; dangos eich bod yn gwneud ymdrech; cadw eich man gweithio'n daclus a dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch

Tasg 2 – Gweithio mewn tîm

Cyfrannu at wneud y gwaith y gofynnir i chi ei wneud hyd eithaf eich gallu; cynnig helpu eraill gyda'u tasgau pan fyddwch wedi gorffen yr hyn rydych chi'n ei wneud

Tasg 3 – Gofalu am gwsmeriaid

Cyfarch cwsmeriaid a chleientiaid yn y ffordd iawn; darparu gwasanaeth da iddynt ac os na allwch eu helpu, eu cyfeirio at rywun yn y sefydliad a all eu helpu

Ddim yn siŵr sut i fynd ati i ennill y bathodyn?

Mae cyflogadwyedd yn ymwneud â dangos bod gennych y sgiliau personol a chymdeithasol i gael swydd a'i chadw.

Mae dyddiadur neu log digidol yn ffordd ddefnyddiol o gofnodi eich profiad. Gallwch ofyn i'ch goruchwyliwr neu athro/athrawes ychwanegu sylwadau, gan ddweud beth wnaethoch yn dda, a thynnu lluniau, e.e. ohonoch yn gwasanaethu cwsmeriaid.

Bathodyn llyfrgellydd gyrfaoedd

Fe'i dyfernir am fod wedi dangos a rhoi tystiolaeth o'r sgiliau y mae eu hangen i gynnal yr adnoddau gwybodaeth yn llyfrgell gyrfaoedd yr ysgol am o leiaf un tymor.

Beth i'w wneud ar gyfer y bathodyn

Tasg 1 – Stoc y llyfrgell

Defnyddio system ddosbarthu llyfrgell gyrfaoedd i godio adnoddau; labelu gwybodaeth newydd, rhoi'r dyddiad arni a'i ffeilio; archebu a/neu lawrlwytho adnoddau newydd

Tasg 2 – Arddangosfeydd a chyflwyniadau

Cadw'r llyfrgell gyrfaoedd yn daclus; gosod arwyddion, posteri ac arddangosfeydd; diweddarau hysbysfyrddau; rhoi sgysiau rhagarweiniol i grwpiau bach o ddisgyblion

Tasg 3 – Ymholiadau defnyddwyr

Croesawu disgyblion a'u helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt gan gynnwys adnoddau argraffedig a digidol; dangos i ddefnyddwyr sut i gael benthg neu gael copïau o adnoddau;

Ddim yn siŵr sut i fynd ati i ennill y bathodyn?

Cadwch gofnod hyfforddi – y nodiadau y byddwch yn eu gwneud ar yr hyfforddiant a roddir i chi i fod yn llyfrgellydd gyrfaoedd gan lyfrgellydd yr ysgol a'r athro neu athrawes gyrfaoedd a/neu'r cynghorydd gyrfaoedd fydd y rhain. Gallai gynnwys rhestr o'ch dyletswyddau, sut i gatalogio adnoddau, sut i wneud arddangosfa dda, sut i ddangos i ddisgyblion eraill sut i ddefnyddio rhaglen yrfaedd benodol, sut i wneud adnoddau'n hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion arbennig, ac ati.

Cadwch log gwaith fel bod gennych gofnod o'ch cynllun gwaith (h.y. y gorchwylion yr oeddech yn bwriadu eu cyflawni gan gynnwys manylion am unrhyw orchwylion eraill y mae staff y llyfrgell neu staff gyrfaoedd yn gofyn i chi eu cyflawni. Gallai eich log gwaith gynnwys:

- Enghreifftiau o'r cwestiynau rydych chi'n eu gofyn i ddisgyblion eraill er mwyn cael gwybod am beth maen nhw'n chwilio ac yna beth rydych chi'n ei wneud gan ddibynnu ar eu hymateb

- sut y gwnaethoch helpu disgyblion eraill i ddod o hyd i'r wybodaeth 'orau' ar gyfer yr hyn yr oedd arnynt eisiau ei ddarganfod
- sut y gwnaethoch annog disgyblion eraill

Gofynnwch i aelod o staff lofnodi eich cofnod hyfforddiant a log gwaith a rhoi'r dyddiad a sylwadau arnynt.

Tynnwch luniau o unrhyw bosteri neu arddangosiadau rydych chi'n eu creu. Mae digwyddiad dathlu cenedlaethol fel Wythnos Prentisiaethau neu Wythnos Wyddoniaeth Prydain yn gyfle da i godi ymwybyddiaeth o adnoddau gyrfaoedd yr ysgol sy'n berthnasol i'r digwyddiad.

Cadwch gopi digidol o boster neu daflen a wnaethoch i ddangos i ddisgyblion eraill sut i ddod o hyd i adnoddau gwybodaeth gyrfaoedd yr ysgol a'u defnyddio.

Cadwch gopi o gyflwyniad PowerPoint a wnaethoch, e.e. ar gyfer sgrin arddangos ddigidol o amgylch yr ysgol, ar gyfer sgwrs gyda grŵp bach o ddisgyblion.

Bathodyn archwilio gyrfaoedd

Fe'i dyfernir am fod wedi dangos a rhoi tystiolaeth o'r sgiliau y mae eu hangen i lunio rhestr fer o swyddi sydd o ddiddordeb i chi, ymchwilio i wybodaeth am un o'r swyddi hynny mewn mwy o fanylder ac egluro ei hatyniadau a'i heriau i chi.

Beth i'w wneud ar gyfer y bathodyn

Tasg 1 – Rhestr fer o swyddi

Defnyddio proses paru a dileu i lunio rhestr fer o 5-10 swydd sydd o ddiddordeb i chi ac y gallech eu hystyried yn opsiynau posibl ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.

Tasg 2 – Astudiaeth swydd

Ymchwilio i un o'r swyddi ar eich rhestr fer gan gyfeirio at fwy nag un ffynhonnell wybodaeth a chofnodi manylion allweddol megis disgrifiad o'r gwaith, nodweddion personol a sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y swydd, gofynion mynediad a sut y mae'r rhagolygon gan gynnwys faint o arian y gallech ei ennill

Tasg 3 - Myfyrdod

Esbonio pam y gallai'r swydd rydych chi wedi ymchwilio iddi weddu'n dda i chi ac unrhyw beth nad ydych chi'n siŵr amdano; amlinellu'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud nesaf i barhau i archwilio'ch opsiynau gyrfa

Ddim yn siŵr sut i fynd ati i ennill y bathodyn?

Un ffordd o lunio rhestr fer o swyddi a allai weddu i chi (Tasg 1) yw ateb holiadur gyrfaoedd am eich diddordebau a'ch sgiliau sy'n rhoi awgrymiadau i chi am swyddi sy'n cyfateb i'ch atebion ac yn eich galluogi i ddewis rhwng 5 a 10 swydd o'u plith yr hoffech ymchwilio ymhellach iddynt. Mae gan lawer o wefannau gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc y math hwn o holiadur. Efallai y bydd eich ysgol yn gallu argymhell un i chi ei defnyddio sy'n eich galluogi i lawrlwytho'ch canlyniadau a'u cadw ar ffurf cynllun gweithredu.

Gallwch gasglu gwybodaeth am un o'r swyddi ar eich rhestr fer (Tasg 2) mewn sawl ffordd wahanol, e.e. edrych ar yr adnoddau argraffedig ac ar-lein yn llyfrgell yr ysgol, chwilio am erthyglau ar y rhyngwyd ac yn y cyfryngau, siarad gyda theulu a ffrindiau, cyfweld â chyflogwyr sy'n dod i'r ysgol neu sydd â stonidin mewn ffair yrfaedd. Gallech gyflwyno eich

astudiaeth swydd fel dogfen, cyflwyniad PowerPoint neu wneud fideo ohonoch chi eich hun yn siarad gyda'r dosbarth am y swydd rydych chi wedi ymchwilio iddi.

I wneud eich myfyrdod (Tasg 3), gallech gael trafodaeth gyda'ch tiwtor neu ysgrifennu myfyrdod yn eich dyddiadur, blog neu le digidol personol (e.e. cofnod cyflawniad digidol).

Bathodyn Llysgennad Gyrfaoedd

Fe'i dyfernir am ddangos a rhoi tystiolaeth o'r sgiliau y mae eu hangen i gyfrannu at gynllunio, cyflawni a gwerthuso'r rhaglen yrfaeodd trwy helpu'r staff gyrfaoedd am o leiaf un tymor

Beth i'w wneud ar gyfer y bathodyn

Tasg 1 – Helpu disgyblion eraill

Dweud wrth ddisgyblion am ddigwyddiadau ac adnoddau gyrfaoedd a allai fod yn ddefnyddiol iddynt

Tasg 2 – Rhoi adborth i staff

Rhoi gwybod i staff gyrfaoedd beth yw barn disgyblion eraill am y rhaglen yrfaeodd

Tasg 3 – Llysgenhadon

Cynorthwyo staff gyrfaoedd yn nigwyddiadau a gweithgareddau gyrfaoedd ysgol

Ddim yn siŵr sut i fynd ati i ennill y bathodyn?

Mae llysgenhadon gyrfaoedd yn wirfoddolwyr sy'n helpu'r staff gyrfaoedd i redeg y rhaglen yrfaeodd. Efallai y byddan nhw'n rhoi negeseuon pwysig i ddsbarthiadau cofrestru, yn bod ar ddyletswydd yn y llyfrgell gyrfaoedd neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ffocws am y rhaglen yrfaeodd. Efallai y byddant hefyd yn helpu i gynnal digwyddiad gyrfaoedd trwy gwrdd â rhieni a disgyblion eraill a'u cyfarch, gofalu am ymwelwyr a helpu'n gyffredinol gyda threfniadaeth y digwyddiad.

Cadwch gofnod o gyfranogiad, e.e. hyfforddiant a roddir i chi, cyfarfodydd cynllunio gyda staff gyrfaoedd, dyletswyddau a gyflawnwyd.